Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Cod Dioddefwyr newydd

## Cod Dioddefwyr newydd – Drafft

CP 1502-II

Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Cod Dioddefwyr newydd

## Cod Dioddefwyr newydd – Drafft

Cyflwynwyd i'r Senedd gan y Gweinidog dros Ddioddefwyr a Thrais yn erbyn Menywod a Merched drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Chwefror 2026

CP 1502-II

**© Hawlfraint y Goron 2026**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn victims.code@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-5463-0

E03303104 02/26

Argraffwyd ar bapur sy’n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau wedi’u hailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

**Hawl 1: I ddeall a chael eich deall a bod gwasanaethau'n cael eu haddasu i'ch anghenion**

Mae gennych **Hawl** i gael asesiad o'ch anghenion fel bod gwasanaethau a chyfathrebiadau'n cael eu haddasu i'ch anghenion. Mae gennych hefyd **Hawl** i gael gwybodaeth mewn ffordd hawdd ei deall a chymorth i gael eich deall, er enghraifft drwy gael gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd.

**Hawl 2: I gael manylion y drosedd wedi eu cofnodi heb oedi digyfiawnhad**

Mae gennych **Hawl** i ddisgwyl i fanylion y drosedd gael eu cofnodi gan yr heddlu cyn gynted â phosib ar ôl y digwyddiad. Os yw'n ofynnol i chi roi datganiad tyst neu gael eich cyfweld, mae gennych **Hawl** i gael cymorth ychwanegol i'ch cynorthwyo drwy'r broses hon.

**Hawl 3: I gael gwybodaeth pan fyddwch yn adrodd trosedd**

Mae gennych **Hawl** i gael cadarnhad ysgrifenedig wrth adrodd trosedd, i gael gwybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol a chael gwybod am wasanaethau i ddioddefwyr. Gallai hyn gynnwys gwasanaethau lle'r ydych yn cyfarfod â'r unigolyn dan amheuaeth neu'r troseddwr – Cyfiawnder Adferol yw'r enw ar hyn.

**Hawl 4: I hunan-gyfeirio a / neu gael eich cyfeirio at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr**

Mae gennych **Hawl** i gael eich cyfeirio at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr a / neu **Hawl** i hunan-gyfeirio a chysylltu'n uniongyrchol â nhw os adroddwch drosedd neu beidio. Os ydych yn gymwys, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfeiriad at wasanaethau cymorth arbenigol.

**Hawl 5: I gael gwybodaeth am iawndal**

Mae gennych **Hawl** i gael gwybod sut i ofyn am iawndal sydd ar gael am golledion, difrod neu anafiadau a achoswyd o ganlyniad i drosedd.

**Hawl 6: I gael gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad**

Mae gennych **Hawl** i gael eich diweddaru ar eich achos a chael gwybod pan wneir penderfyniadau pwysig. Mae gennych hefyd **Hawl**, ar bwyntiau penodol yn y broses gyfiawnder, i ofyn i'r darparwr gwasanaeth perthnasol edrych ar benderfyniad eto.

**Hawl 7: I wneud Datganiad Effaith Dioddefwr**

Mae gennych **Hawl** i gael gwybod am a gwneud Datganiad Effaith Dioddefwr, sy'n dweud wrth y llys sut yr effeithiodd y drosedd arnoch ac sy'n cael ei ystyried wrth ddedfrydu'r troseddwr.

**Hawl 8: I gael gwybodaeth am y treial, proses y treial a'ch rôl fel tyst**

Os yw eich achos yn mynd i'r llys, mae gennych **Hawl** i gael gwybod yn amserol am amser, dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawiad a'i ganlyniad. Os oes angen i chi roi tystiolaeth, mae gennych Hawl i gael cynnig cymorth priodol cyn y treial gan gynnwys i gael gwybod am fesurau arbennig a, lle bo'n bosib, i gyfarfod â'r erlynydd cyn rhoi tystiolaeth.

**Hawl 9: I gael gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apêl**

Mae gennych **Hawl** i gael gwybod canlyniad yr achos ac, os cafwyd y diffynnydd yn euog, i'w dedfryd gael ei hegluro i chi. Os yw'r troseddwr yn apelio yn erbyn yr euogfarn neu'r ddedfryd, mae gennych **Hawl** i gael gwybod am yr apêl a'i chanlyniad.

**Hawl 10: I gael treuliau ac i eiddo gael ei ddychwelyd i chi**

Os oes raid i chi fynd i'r llys i roi tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i hawlio treuliau penodol. Os cymerwyd unrhyw eiddo gennych fel tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i'w gael yn ôl cyn gynted â phosib.

**Hawl 11: I gael gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn**

Os ydych yn gymwys, mae gennych **Hawl** i gael gwybodaeth neilltuol am y troseddwr ac os / pryd y byddant yn gymwys ar gyfer parôl neu eu rhyddhau. Lle bo'n berthnasol, mae gennych hefyd **Hawl** i wneud Datganiad Effaith Dioddefwr newydd.

**Hawl 12: I gwyno nad yw eich Hawliau'n cael eu cwrdd**

Os credwch nad yw eich **Hawliau** wedi cael eu cwrdd, mae gennych **Hawl** i wneud cwyn i'r darparwr gwasanaeth perthnasol. Os ydych dal yn anhapus, gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd.

# Cynnwys

Rhagarweiniad 3

Pwy sy'n 'ddioddefwr' o dan y Cod hwn? 5

Hawliau Estynedig 10

Pwy sy'n gyfrifol am gwrdd â'r Hawliau o dan y Cod hwn? 12

Hawl 1: I ddeall a chael eich deall, a bod gwasanaethau'n cael eu haddasu i'ch anghenion 15

Hawl 2: I gael manylion y drosedd wedi eu cofnodi heb oedi digyfiawnhad 20

Hawl 3: I gael gwybodaeth wrth adrodd y drosedd 23

Hawl 4: I hunan-gyfeirio a / neu gael eich cyfeirio at wasanaeth cymorth dioddefwyr 26

Hawl 5: I gael gwybodaeth am iawndal 29

Hawl 6: I gael gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad 33

Hawl 7: I wneud Datganiad Effaith Dioddefwr 39

Hawl 8: I gael gwybodaeth am y treial, proses y treial a'ch rôl fel tyst 43

Hawl 9: I gael gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apêl 48

Hawl 10: I gael treuliau ac i eiddo gael ei ddychwelyd i chi 54

Hawl 11: I gael gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn 55

Hawl 12: I gwyno nad yw eich Hawliau'n cael eu cwrdd 66

Preifatrwydd a datgelu data yn y system cyfiawnder troseddol 67

Gwybodaeth ddefnyddiol arall 71

# Rhagarweiniad

Mae'r Cod Ymarfer Dioddefwyr Troseddau[1] (y Cod Dioddefwyr) yn nodi'r gwasanaethau a'r safon isaf sy'n ofynnol pan fydd sefydliadau (darparwyr gwasanaeth) yn darparu'r gwasanaethau hyn i ddioddefwyr troseddau yng Nghymru a Lloegr.

Mae'n gyfreithiol ofynnol i'r Cod Dioddefwyr[2] gynnwys gwasanaethau sy'n unol â'r pedair egwyddor ganlynol.

| Egwyddor yn y Cod | Hawliau perthnasol y Cod |
|---|---|
| Mae angen gwybodaeth ar ddioddefwyr i'w helpu i ddeall y broses cyfiawnder troseddol | • Hawl 1: I ddeall a chael eich deall a bod gwasanaethau'n cael eu haddasu i'ch anghenion<br>• Hawl 3: I gael gwybodaeth pan fyddwch yn adrodd trosedd<br>• Hawl 5: I gael gwybodaeth am iawndal<br>• Hawl 6: I gael gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad<br>• Hawl 8: I gael gwybodaeth am y treial, proses y treial a'ch rôl fel tyst<br>• Hawl 9: I gael gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apêl<br>• Hawl 11: I gael gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn |
| Mae angen i ddioddefwyr gael mynediad at wasanaethau cymorth (gan gynnwys gwasanaethau arbenigol lle bo'n briodol) | • Hawl 4: I hunan-gyfeirio a / neu gael eich cyfeirio at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr |
| Mae angen cyfle ar ddioddefwyr i leisio eu barn yn y broses cyfiawnder troseddol | • Hawl 2: I gael manylion y drosedd wedi eu cofnodi heb oedi digyfiawnhad<br>• Hawl 7: I wneud Datganiad Effaith Dioddefwr<br>• Hawl 10: I gael treuliau ac i eiddo gael ei ddychwelyd i chi |

1 **[*Yn ddarostyngedig i weithrediad a.2 Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024*:** Mae'r Cod Dioddefwyr yn cael ei gyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o dan adran 2 Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024.**]**

2 Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024

| Egwyddor yn y Cod | Hawliau perthnasol y Cod |
|---|---|
| Mae angen i ddioddefwyr fod yn gallu herio penderfyniad sy’n effeithio’n uniongyrchol arnynt | • Hawl 6: I gael gwybodaeth am yr ymchwiliad a’r erlyniad<br>• Hawl 12: I gwyno nad yw eich Hawliau’n cael eu cwrdd |

Nod yr Hawliau a eglurir yn y ddogfen hon yw cyflawni’r egwyddorion hyn a nodi’n glir sut y cefnogir dioddefwyr i gymryd rhan a pharhau i fod yn rhan o’r broses cyfiawnder troseddol.

Mae'r Cod hwn hefyd yn nodi gwybodaeth gyffredinol am y system cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

**Blychau glas** i gael rhagor o fanylion am brosesau a thermau a ddefnyddir yn y system cyfiawnder troseddol, yn ogystal â gwybodaeth bellach i ddioddefwyr mathau penodol o droseddau.

**Blychau melyn** ar gyfer gwybodaeth ychwanegol os ydych o dan ddeunaw oed ynghylch sut y gall y Cod hwn fod yn berthnasol i chi.

# Pwy sy'n 'ddioddefwr' o dan y Cod hwn?

Mae'r Cod hwn yn cydnabod bod y termau 'achwynydd' a 'goroeswr' yn aml yn cael eu defnyddio yn y System Cyfiawnder Troseddol i ddisgrifio rhywun a wnaeth honiad troseddol i'r heddlu. Fodd bynnag, i bwrpas y Cod hwn, ystyrir eich bod yn 'ddioddefwr' os ydych wedi dioddef niwed (yn cynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol, neu golled economaidd) a achoswyd yn uniongyrchol gan:

- ddioddef ymddygiad troseddol (gan gynnwys os cawsoch eich ecsbloetio i ymddwyn yn droseddol) – mae hyn yn cynnwys busnesau neu fudiadau eraill fel elusennau ac 'endidau corfforaethol' eraill nad ydynt yn unigolion;[3]
- bod yn aelod teulu agos4 i rywun a fu farw o ganlyniad uniongyrchol i ymddygiad troseddol;
- cael eich geni o ganlyniad uniongyrchol i drais rhywiol neu ymddygiad troseddol arall;
- gweld, clywed neu brofi effeithiau ymddygiad troseddol yn ymwneud â cham-drin domestig pan oeddech yn blentyn dan 18 oed mewn amgylchiadau lle'r oedd yr unigolyn yn cael eu cam-drin, neu'r camdriniwr, yn perthyn i chi neu gyda chyfrifoldeb rhiant drosoch;
- bod yn dyst i (a ddisgrifir fel gweld, clywed neu brofi effeithiau eraill) ymddygiad troseddol pan ddigwyddodd.

Pan fydd y drosedd yn cael ei chyflawni yn ddiarwybod ichi, mae'n bosib y bydd y niwed yn cael ei achosi pan fyddwch yn cael gwybod am y drosedd. Rydych chi'n dal i fod yn ddioddefwr o dan y Cod hwn. Er enghraifft, gall y math yma o niwed ddigwydd mewn achosion o niwed rhywiol digyffwrdd/ar-lein.

Bydd pa Hawliau yn y Cod sy'n berthnasol i chi'n dibynnu ar eich amgylchiadau. Bydd y darparwr gwasanaeth perthnasol yn dweud wrthych pa Hawliau sy'n berthnasol i chi.

- Mae pob dioddefwr yn gymwys ar gyfer Hawl 4 (hawl i hunan-gyfeirio a/neu gael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth dioddefwyr),[5] heblaw busnesau neu fudiadau eraill (ond heb eithrio eu staff, sydd dal â'r hawl i gael cymorth fel unigolion). Nid oes angen i

---

3 Mae'n bosib y bydd gan ddarparwyr gwasanaethau feini prawf clir sy'n diffinio'r mathau o fusnesau a mudiadau y bydd Hawliau o dan y Cod yn berthnasol iddynt.

4 Mae hyn fel arfer yn cyfeirio at gymar, partner, teulu agos, gwarcheidwaid, brodyr a chwiorydd a dibynyddion dioddefwyr. Gallai aelodau teulu eraill, fel gofalwyr, gael eu hystyried i fod yn deulu agos yn ôl disgresiwn y darparwr gwasanaeth.

5 Os cewch eich nodi fel dioddefwr posib caethwasiaeth fodern, gall Sefydliad Ymatebwr Cyntaf (https://www.modernslavery.gov.uk/designated-organisations) eich cyfeirio at y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (NRM). Mae'r NRM yn eistedd y tu allan i'r hawliau a ddarperir o dan y Cod hwn ac nid yw'n bosib hunan-gyfeirio i'r NRM. I gael rhagor o wybodaeth, gweler 'Gwybodaeth ddefnyddiol arall'.

chi fod wedi adrodd y drosedd, rhoi datganiad na chael eich cyfweld gan yr heddlu, na chael eich galw i'r llys fel tyst, i gael gwasanaethau cymorth.

- Mae gweddill yr hawliau'n ymwneud â phrosesau'r system cyfiawnder troseddol ac yn berthnasol os adroddwyd trosedd i'r heddlu, ac yn dibynnu ar ba mor bell y mae'r achos yn mynd. Mae'r rhain yn berthnasol i bob dioddefwr a restrir uchod, heblaw tystion trosedd. Os oes gennych hawl i gael gwasanaethau'r broses cyfiawnder troseddol fel tyst, disgrifir yr hawliau hyn ar wahân o dan y Siarter Tystion: www.gov.uk/government/publications/the-witness-charter-standards-of-care-for-witnesses-in-the-criminal-justice-system.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gallwch gael rhai **Hawliau** o dan y Cod hwn ar ran y dioddefwr os yw'r darparwr gwasanaeth yn teimlo ei bod yn briodol ac er lles gorau'r dioddefwr (fel Hawliau'n ymwneud â darparu gwybodaeth). Gallai hyn ddigwydd os ydych:

- yn rhiant neu warcheidwad[6] i ddioddefwr dan 18 oed[7] (oni bai fod y rhiant neu warcheidwad yn destun ymchwiliad neu wedi eu cyhuddo gan yr heddlu yng nghyswllt y drosedd, neu os na fyddai er lles gorau'r dioddefwr, ym marn resymol y darparwr gwasanaeth dan sylw, i'r rhiant neu warcheidwad gael gwasanaethau o'r fath), neu
- yn llefarydd teulu enwebedig ar ran dioddefwr sydd ag amhariad meddyliol neu sydd wedi cael eu hanafu mor ddrwg o ganlyniad i drosedd fel nad ydynt yn gallu cyfathrebu neu heb alluedd i wneud hynny, neu
- yn llefarydd teulu enwebedig ar gyfer aelodau o deulu agos dioddefwr y bu i drosedd achosi ei farwolaeth

Os ydych dan 18 oed, rydych yn cael eich ystyried yn awtomatig i fod yn gymwys am Hawliau Estynedig (gw. yr adran isod). Gallai rhai hawliau fod yn berthnasol i chi mewn ffordd wahanol i'w perthnasedd i oedolion, a thynnir sylw at yr hawliau hyn yn y Cod drwy ddefnyddio'r blychau melyn hyn. Gall darparwyr gwasanaeth edrych ar hyn yn wahanol gan ddibynnu ar amgylchiadau eich achos, ond byddant yn dweud wrthych os yw hyn yn digwydd.

[6] Mae "rhiant" yn cynnwys rhiant biolegol, rhiant mabwysiedig, llys-riant gyda chyfrifoldeb rhiant cyfreithiol, a rhiant o dan Ddeddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 2008 (er enghraifft, ail riant benywaidd). Mae "gwarcheidwad" yn golygu unigolyn arall gyda chyfrifoldeb rhiant cyfreithiol, unigolyn a benodwyd yn warcheidwad drwy orchymyn llys neu ewyllys (os yw'r rhieni wedi marw), neu unigolyn sydd, yn ymarferol, yn gofalu am blentyn o ddydd i ddydd, fel gofalwr maeth neu ofalwr teuluol wedi eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol.

[7] Mae aeddfedrwydd neu gymhwysedd plentyn yn dibynnu ar eu dealltwriaeth o'r wybodaeth a gawsant gan ddarparwyr gwasanaeth a, lle bo'n berthnasol, eu dealltwriaeth o beth y gofynnir iddynt ei wneud, e.e. rhoi caniatâd. Gellir dangos hyn drwy fod yn gallu egluro eu rhesymau dros y farn y maen nhw'n ei mynegi neu'r penderfyniadau y maen nhw'n eu gwneud.

Bydd rhai hawliau ddim ond yn berthnasol i chi bob amser, fel cael eich cyfeirio at wasanaeth cymorth ar ôl ichi adrodd y drosedd. Os yw hawliau'n golygu bod angen deall, rhoi caniatâd, neu rannu barn (hawliau gwybodaeth a chyfathrebu), bydd y rhain yn cael eu rhoi yn uniongyrchol i chi neu i'ch rhiant neu warcheidwad yn dibynnu ar eich oed ar y pryd.

- Os ydych o dan 12 oed, bydd eich rhiant neu warcheidwad yn cael yr hawliau cyfathrebu ar eich rhan). Gallech fod yn rhan o rai penderfyniadau os bydd rhiant neu warcheidwad yn meddwl y byddai'n briodol, a gallai darparwr gwasanaeth dal ofyn i chi am eich barn.
- Os ydych rhwng 12 a 15 oed, byddant yn gofyn a hoffech gael yr hawliau cyfathrebu hyn yn uniongyrchol eich hun. Os byddwch yn eu cael, bydd y darparwr gwasanaeth hefyd yn diweddaru eich rhiant neu warcheidwad.
- Os ydych rhwng 16 a 17 oed, byddwch yn cael yr hawliau'n uniongyrchol oni bai y penderfynwch beidio ac os felly gallwch optio allan. Bydd y darparwr gwasanaeth hefyd yn diweddaru eich rhiant neu warcheidwad, oni bai eich bod yn byw'n annibynnol.

Bydd darparwyr gwasanaeth yn ystyried eich oed ac a allwch ddeall a gwneud penderfyniadau, a elwir weithiau'n 'gymhwysedd'[8] wrth asesu eich anghenion (gw. **Hawl 1** am fwy o fanylion). Gallwch ddweud wrth ddarparwr gwasanaeth os bydd eich anghenion yn newid ac rydych eisiau chwarae mwy neu lai o ran. Er enghraifft os byddwch yn troi 12 neu 16 oed, gallwch ofyn i ddarparwr gwasanaeth ailasesu gweithio gyda chi, yn unol â'r egwyddorion uchod.

Fel rhiant neu warcheidwad, gall cefnogi eich plentyn i gael mynediad at ei Hawliau o dan y Cod hwn deimlo'n llethol. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl yma: https://victimandwitnessinformation.org.uk/young-victim-or-witness-parent

## Dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus

Yn aml gall ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus fod yn droseddol. Mae'r rhai sy'n destun ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n droseddol yn ddioddefwyr o dan y Cod hwn ac mae ganddynt **Hawl** i, er enghraifft, gael gwybodaeth wrth adrodd y drosedd (**Hawl 3**) ac i hunan-gyfeirio a/neu gael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth (**Hawl 4**). Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw'r heddlu'n penderfynu peidio ag erlyn cyhuddiadau troseddol.

[8] Mae aeddfedrwydd neu gymhwysedd plentyn yn dibynnu ar eu dealltwriaeth o'r wybodaeth a gawsant gan ddarparwr gwasanaeth a, lle bo'n berthnasol, eu dealltwriaeth o beth y gofynnir iddynt ei wneud, e.e. rhoi caniatâd. Gellir dangos hyn drwy fod yn gallu egluro eu rhesymau dros y farn y maen nhw'n ei fynegi neu'r penderfyniadau y maen nhw'n ei wneud.

## Statws preswyl neu fewnfudo

Os cafodd y drosedd ei chyflawni yng Nghymru neu Loegr, mae gennych **Hawl** i hunan-gyfeirio a/neu gael eich cyfeirio at wasanaethau o dan y Cod hwn beth bynnag yw eich statws preswyl neu fewnfudo. Fodd bynnag, os ydych yn byw yn rhywle arall, dylech gael gwasanaethau cymorth lle'r ydych yn byw. Os oes angen i chi roi tystiolaeth mewn llys yng Nghymru neu Loegr, byddwch yn gallu cael gwasanaethau cymorth tra byddwch yng Nghymru neu Loegr. Mae gwahanol ganllawiau i ddioddefwyr troseddau yn yr Alban: www.mygov.scot/victim-witness-support ac i ddioddefwyr troseddau yng Ngogledd Iwerddon: www.nidirect.gov.uk/articles/support-services-victims

## Dioddefwyr troseddau sy'n digwydd dramor

**Os ydych yn wladolyn Prydeinig a ddioddefodd drosedd dramor**, dylech gysylltu â'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO). Rhoddir mwy o fanylion am sut y gall y FCDO helpu yn: www.gov.uk/guidance/victim-of-crime-abroad

Pan fyddwch yn dychwelyd adref, gallwch hunan-gyfeirio at wasanaethau cymorth yng Nghymru a Lloegr i'ch helpu i ymdopi a chael adferiad o effaith y drosedd. Rhoddir mwy o fanylion am y gwahanol gymorth sydd ar gael yn: https://victimandwitnessinformation.org.uk/

## Teuluoedd i rywun a fu farw oherwydd llofruddiaeth neu ddynladdiad dramor

**Os ydych yn aelod teulu agos[9] i wladolyn Prydeinig a fu farw oherwydd llofruddiaeth neu ddynladdiad dramor,** mae'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) yn cynnig cymorth penodol. Mae hyn yn cynnwys achosion lle bu marwolaeth mewn gweithred derfysgaeth a ddynodwyd yn y DU dramor. Gall y cymorth a ddarperir gan yr FCDO gynnwys gwybodaeth am brosesau a chyfeirio at gymorth sydd ar gael yn y wlad lle digwyddodd y digwyddiad, a diweddariadau ar gynnydd yr ymchwiliad neu'r treial (er na all yr FCDO ymyrryd â'r system cyfiawnder lleol).

Os ydych yn breswylydd yng Nghymru neu Loegr, bydd y FCDO yn gofyn am eich caniatâd i'ch cyfeirio at ei bartner cymorth arbenigol a allai gynnig cymorth emosiynol ac ymarferol ychwanegol. Gall y cymorth arbenigol hwn gynnwys help i ddod o hyd i gyfreithiwr neu wasanaethau cyfieithu, i ddychwelyd corff y dioddefwr adref, eich cyfeirio at

---

[9] Mae hyn yn cyfeirio at gymar, partner, teulu agos, gwarcheidwaid, brodyr a chwiorydd a dibynyddion dioddefwyr. Gallai aelodau teulu eraill, fel gwarcheidwaid a gofalwyr, gael eu hystyried i fod yn aelod o deulu agos yn ôl disgresiwn y FCDO.

therapyddion profedigaeth a thrawma a / neu gymorth i siarad ag eraill sydd wedi bod drwy brofiadau tebyg. Gan ddibynnu ar yr achos, efallai y bydd y partner cymorth arbenigol yn rhoi cymorth ariannol, er enghraifft cyfraniad ariannol tuag at ddychwelyd corff yr unigolyn neu gostau teithio os oes angen i chi fynychu achos llys dramor.

Mae mwy o wybodaeth ar gael drwy ffonio: **020 7008 5000**[10] neu yn: https://www.gov.uk/guidance/if-a-british-national-dies-abroad-through-murder-or-manslaughter

Os nad ydych yn y Deyrnas Unedig, rhoddir manylion cyswllt swyddfa llysgenhadaeth Prydain, uchel-gomisiwn neu gonswl agosaf ar-lein yn: https://www.gov.uk/world/embassies

Mae Memorandwm Dealltwriaeth rhwng asiantaethau ar gael i helpu i egluro rôl y FCDO, yr heddlu a'r crwner yng Nghymru a Lloegr pan fydd gwladolyn Prydeinig yn marw dramor drwy lofruddiaeth, dynladdiad neu blentyn-laddiad. Mae ffocws y Memorandwm ar yr ymadawedig a'u teulu ac yn egluro sut fath o gymorth sydd ar gael. Mae'r Memorandwm ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/murder-manslaughter-and-infanticide-of-british-nationals-abroad-memorandum-of-understanding

Mae gweddill Hawliau'r Cod Dioddefwyr ond yn berthnasol i ddioddefwyr os yw'r achos yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a Lloegr neu os gellir ei erlyn yng Nghymru a Lloegr.

[10] Ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

# Hawliau Estynedig

Mae'r Cod hwn yn cydnabod bod rhai dioddefwyr (isod) yn fwy tebygol o fod angen cymorth arbenigol, a elwir yn **Hawliau Estynedig**. Gall y cymorth hwn gynnwys cynnig eich cyfeirio at wasanaeth cymorth arbenigol, rhywun yn cysylltu gyda chi'n gynt ar ôl penderfyniad pwysig a chael mynediad at 'fesurau arbennig' i'ch helpu i roi tystiolaeth.[11] Gyda phob **Hawl** unigol, mae'r Cod hwn yn nodi os yw **Hawliau Estynedig** o'r fath ar gael.

Unwaith fydd darparwr gwasanaeth wedi adnabod eich bod yn gymwys am **Hawliau Estynedig**, rhaid iddynt sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei phasio at ddarparwyr gwasanaeth eraill gyda chyfrifoldebau o dan y Cod hwn a, lle bo'n briodol, at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr. Os nad ydych yn dod o dan y categorïau isod, gall darparwr gwasanaeth benderfynu rhoi mynediad at **Hawliau Estynedig** penodol gan ddibynnu ar eich amgylchiadau neu effaith y drosedd.

## Dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol

Rydych yn gymwys i gael **Hawliau Estynedig** o dan y Cod hwn fel dioddefwr un o'r troseddau mwyaf difrifol os ydych yn aelod teulu agos i rywun a fu farw o ganlyniad uniongyrchol i drosedd, neu'n ddioddefwr cam-drin domestig, trosedd casineb, terfysgaeth, troseddau rhywiol, masnachu pobl, caethwasiaeth fodern, ymgais i lofruddio, herwgipio, carcharu ar gam, llosgi bwriadol gan fwriadu peryglu bywyd a chlwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol bwriadol i rywun.

Disgrifir **Hawliau Estynedig** ychwanegol sydd ar gael i aelodau teulu agos i rywun a fu farw ar wahân o dan bob **Hawl** unigol yn y Cod hwn.

## Dioddefwyr bregus

Rydych yn gymwys i gael **Hawliau Estynedig** o dan y Cod hwn fel dioddefwr bregus[12] os ydych wedi dioddef trosedd ac:

- roeddech dan 18 oed pan ddigwyddodd y drosedd,[13] neu
- mae ansawdd eich tystiolaeth yn debygol o gael ei effeithio oherwydd:

[11] Am ragor o fanylion am fesurau arbennig: https://victimandwitnessinformation.org.uk/the-court-process/special-measures

[12] Mae hyn yn seiliedig ar y meini prawf yn adran 16 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA) a ddefnyddir gan y llys i benderfynu a ydych yn gymwys i gael mesurau arbennig.

[13] Ar gyfer **Hawliau Estynedig** cyffredinol o dan y Cod hwn. Fodd bynnag, i fod yn gymwys am fesurau arbennig o dan adran 16 YJCEA, rhaid i chi fod dan 18 oed pan gynhelir y gwrandawiad.

- rydych yn byw gydag anhwylder meddwl yn ôl diffiniad Deddf Iechyd Meddwl 1983;
- rydych fel arall ag amhariad sylweddol ar eich deallusrwydd a sgiliau gweithredol cymdeithasol; neu
- gydag anabledd corfforol neu'n byw gydag anhwylder corfforol.

## Dioddefwyr sy'n cael eu bygwth

Rydych hefyd yn gymwys i gael **Hawliau Estynedig** o dan y Cod fel dioddefwr wedi eich bygwth os ydych wedi dioddef trosedd ac mae'r darparwr gwasanaeth yn credu y byddai eich ofn neu drallod o orfod rhoi tystiolaeth mewn llys yn effeithio ar ansawdd eich tystiolaeth.[14]

Os ydych wedi dioddef trais rhywiol, cam-drin domestig neu fasnachu mewn pobl, byddwch yn cael eich ystyried yn awtomatig i fod yn ddioddefwr wedi eich bygwth.

Wrth asesu a yw dioddefwyr troseddau eraill wedi cael eu bygwth, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ystyried:

- yr ymddygiad tuag at y dioddefwr gan yr unigolyn dan amheuaeth, aelodau o'u teulu neu gydnabod, neu unrhyw un arall sy'n debygol o fod yn unigolyn dan amheuaeth neu dyst yn yr achos;
- oed y dioddefwr;
- lle bo'n berthnasol, cefndir cymdeithasol a diwylliannol, daliadau crefyddol neu farn wleidyddol, tarddiad ethnig ac amgylchiadau domestig a chyflogaeth y dioddefwr; ac
- unrhyw farn a fynegir gan y dioddefwr.

## Dioddefwyr a dargedir yn barhaus

Rydych yn gymwys i gael **Hawliau Estynedig** o dan y Cod hwn os cawsoch eich targedu droeon fel dioddefwr trosedd uniongyrchol dros gyfnod o amser, yn enwedig os cawsoch eich targedu'n fwriadol neu rydych wedi dioddef ymgyrch o aflonyddwch neu stelcian.

[14] Mae hyn yn seiliedig ar y meini prawf ar gyfer mesurau arbennig yn adran 17 YJCEA.

# Pwy sy'n gyfrifol am gwrdd â'r Hawliau o dan y Cod hwn?

Mae'n ofynnol i'r sefydliadau canlynol ddarparu **Hawliau'r** Cod hwn fel darparwyr gwasanaeth:

- Holl heddluoedd (gan gynnwys Unedau Gofal Dioddefwyr a Thystion[15]) Cymru a Lloegr, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a'i asiantaethau gweithredol, gan gynnwys y Gwasanaeth Prawf
- Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr
- Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol
- Yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol
- Goruchaf Lys y DU
- Timau Troseddwyr Ifanc (a elwir weithiau'n Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid)[16]

Mae gan y darparwyr gwasanaeth hyn ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau o dan y Cod hwn oni bai bod rheswm da dros beidio.[17] Un enghraifft o reswm da fyddai bod angen mwy o amser ar ddarparwr gwasanaeth i roi gwybodaeth sensitif neu gymhleth i ddioddefwyr, neu i roi gwybodaeth yn unol â dewisiadau amser a chyfathrebu'r dioddefwr ei hun.

***[PLACEHOLDER: Yn ddarostyngedig i weithrediad a.6 Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024:*** Bydd gan rai darparwyr gwasanaeth ddyletswydd gyfreithiol i gymryd camau rhesymol i'ch hysbysu o'r Cod Dioddefwyr, felly gallwch ddisgwyl cael gwybodaeth am y Cod hwn ar nifer o wahanol bwyntiau wrth i'ch achos symud drwy'r system gyfiawnder.]

---

[15] Yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yw'r enw cyffredinol ar swyddogaeth yr heddlu o roi gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr a thystion mewn achosion sy'n mynd drwy'r System Cyfiawnder Troseddol. Gallai'r uned fod ag enw arall yn eich ardal leol chi. Bydd yr heddlu'n dweud wrthych beth yw enw'r uned sy'n darparu'r Hawliau y mae gan yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion gyfrifoldeb i'w darparu o dan y Cod hwn.

[16] Mae'r diffiniad statudol o wasanaeth cyfiawnder ieuenctid lleol wedi'i gynnwys yn Neddf Troseddu ac Anrhefn 1998. Mewn cyfraith, gelwir y rhain yn dimau troseddwyr ifanc. Wrth i'r gwasanaethau esblygu, maen nhw wedi cael eu galw'n wahanol enwau. I bwrpas y ddogfen hon, defnyddiwn y term Timau Troseddwyr Ifanc.

[17] Adran 5(1) Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024.

O dan y Cod hwn, bydd rhai dioddefwyr yn cael eu **Hawliau** drwy gyfuniad o'r darparwyr gwasanaeth a restrir uchod a darparwyr eraill sydd naill ai'n erlyn troseddau neu sydd â rôl mewn rheoli troseddwyr, gan gynnwys:

- Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- Yr Adran Busnes a Masnach (Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol y Gwasanaeth Ansolfedd)
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
- Y Comisiwn Gamblo
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi
- Y Swyddfa Gartref (Gorfodaeth Mewnfudo)
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
- Yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd
- Y Swyddfa Twyll Difrifol

Gall darparwyr gwasanaeth eraill hefyd chwarae rôl mewn ymchwilio i a / neu erlyn troseddau. Fodd bynnag, yn wahanol i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, sydd â chylch gwaith eang i ymchwilio ac erlyn troseddau, mae'r darparwyr hyn wedi cyfyngu i ymchwilio ac erlyn mathau penodol o droseddau sy'n cael eu cyflawni mewn amgylchiadau penodol. Mae rhai o'r darparwyr gwasanaeth hyn hefyd yn rheoleiddwyr. Bydd hyn yn penderfynu sut a pha mor aml y maen nhw'n dod i gysylltiad â dioddefwyr.

Bydd **Hawliau'r** Cod hwn ond yn berthnasol os yw darparwyr gwasanaeth eraill (fel y rhai a restrir uchod) yn cael cyfrifoldeb ffurfiol am wneud ymchwiliad troseddol neu'n penderfynu erlyn. Fodd bynnag nid yw holl swyddogaethau darparwyr gwasanaeth eraill yr un fath â rhai'r heddlu a'r CPS. Os yw'r swyddogaethau'n cyfateb i swyddogaethau darparwr gwasanaeth o dan y Cod hwn (e.e. mae'r darparwr arall yn ymchwilio neu'n erlyn trosedd honedig), rhaid iddynt ddarparu'r un **Hawliau** heb unrhyw oedi digyfiawnhad p'un ai yw'r darparwr gwasanaeth arall wedi'i restru uchod neu beidio, oni bai bod rhesymau da dros beidio â gwneud hynny.

Dylai darparwyr gwasanaeth ar draws y system cyfiawnder troseddol weithio gyda'i gilydd i hwyluso darparu gwasanaethau'r Cod i ddioddefwyr, hyd yn oed os nad hwy yw'r darparwr gwasanaeth perthnasol. Er enghraifft, pan fydd dioddefwr hefyd yn droseddwr sydd yn y ddalfa, dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF weithio gyda'r heddlu i hwyluso **Hawliau**'r dioddefwr hwnnw. Gall darparwyr gwasanaeth ddirprwyo neu gontractio rhai cyfrifoldebau cyfeirio a gwybodaeth i gontractwr penodol neu, os cytunir, i asiantaeth

cyfiawnder troseddol arall mewn achosion lle byddai hyn yn gwella'r gwasanaeth a roddir i ddioddefwyr. Gallai hyn gynnwys rhoi diweddariadau a gwybodaeth reolaidd am achos, ar yr amod bod trefniadau monitro a rhannu data priodol yn eu lle. Mae'r darparwr gwasanaeth perthnasol yn dal yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth o dan y Cod hwn.

## Darparwyr gwasanaeth yn rhannu gwybodaeth

Lle bo'n ofynnol rhannu gwybodaeth o dan y Cod hwn, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth wneud hyn yn effeithiol ac yn unol â'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR) a deddfwriaeth berthnasol arall.

Os oes llawer iawn o ddioddefwyr mewn achos, er enghraifft twyll buddsoddiad helaeth gyda nifer o ddioddefwyr wedi buddsoddi ynddo, neu mewn achosion eithriadol eraill, gall y darparwr gwasanaeth gyfathrebu gwybodaeth[18] y mae gan ddioddefwr **Hawl** i'w derbyn o dan y Cod hwn drwy sianeli eraill fel eu gwefan, yn lle cysylltu â dioddefwyr unigol.

O dan y Cod hwn, nid oes gofyn i ddarparwyr gwasanaeth roi gwybodaeth i'r dioddefwr, gan gynnwys egluro pam na ellir rhoi gwybodaeth, os gallai ei datgelu:

- achosi niwed i unrhyw un;
- effeithio ar ddelio'n iawn ag unrhyw ymchwiliad troseddol neu erlyniad, neu niweidio unrhyw achos rheoleiddio, sifil neu droseddol, achos parôl neu achos cysylltiedig mewn unrhyw fodd arall; neu
- os byddai, ym marn y darparwr gwasanaeth, yn groes i fuddiannau diogelwch gwladol.

[18] Gallai hyn gynnwys cyfathrebu gwybodaeth o dan Hawliau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 ac 11 y Cod hwn.

# Hawl 1: I ddeall a chael eich deall, a bod gwasanaethau'n cael eu haddasu i'ch anghenion

1.1 Mae gennych **Hawl** i gael eich helpu i ddeall beth sy'n digwydd, ac i gael eich deall. Wrth ystyried mesurau priodol, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ystyried unrhyw nodweddion personol perthnasol a allai effeithio ar eich gallu i ddeall a chael eich deall a rhaid iddynt ofyn am ac ystyried eich barn am yr addasiadau sydd eu hangen arnoch.

1.2 Os oes angen cymorth arnoch, oherwydd effaith y drosedd, i ddeall neu gael eich deall, gallwch dderbyn cymorth gan unigolyn o'ch dewis chi, oni bai fod y darparwr gwasanaeth yn credu na fyddai o les i chi neu y byddai'n effeithio ar yr ymchwiliad neu'r erlyniad. Yn yr amgylchiadau hyn bydd y darparwr yn egluro pam i chi.

1.3 Drwy gydol eich siwrne gyda'r System Cyfiawnder Troseddol, mae gennych **Hawl** i:

- gael eich trin gyda pharch, urddas, sensitifrwydd, tosturi a chwrteisi;
- gwneud dewisiadau gwybodus sy'n cael eu parchu'n llawn; a
- cael gwasanaethau i'ch helpu chi a'ch teulu i ddeall a chyfrannu at y broses cyfiawnder troseddol, wedi eu cynnig mewn ffordd broffesiynol a heb wahaniaethu o unrhyw fath.

## Addasiadau ar sail eich anghenion

1.4 Wrth gyflawni'r Cod Dioddefwyr, rhaid i bob darparwr gwasanaeth ystyried, fel prif ystyriaeth, beth fyddai orau er lles y dioddefwr ar ôl ystyried oed, aeddfedrwydd, barn, anghenion a phryderon y dioddefwr yn llawn.

1.5 Pan fyddwch yn adrodd trosedd i'r heddlu, mae gennych **Hawl** i dderbyn asesiad o'ch anghenion ar wahanol bwyntiau yn eich achos. Mae hyn fel bod darparwyr gwasanaeth yn deall eich dewisiadau ac anghenion er mwyn gallu gwneud addasiadau i'w gwasanaethau, lle bo'n bosib, i'ch helpu drwy'r System Cyfiawnder Troseddol. Drwy gydol eich achos, rhaid i bob darparwr gwasanaeth roi cyfle i chi gael eich ail-asesu os dywedwch wrthynt sut y mae eich anghenion wedi newid.

1.6 Bob tro y bydd eich anghenion yn cael eu hasesu gan yr heddlu mae gennych **Hawl** i gael gwybod am eich Hawliau o dan y Cod hwn.

1.7 Gall darparwyr gwasanaeth rannu gwybodaeth berthnasol fel sut y byddai'n well gennych gysylltu gyda'ch gilydd, lle bo'n briodol. Mae hyn fel na fydd angen i chi ailadrodd eich anghenion i wahanol ddarparwyr ar hyd y ffordd.

### Pryd a sut fydd eich anghenion yn cael eu hasesu

Bydd eich anghenion yn cael eu hystyried yn barhaus ond mae tri cham allweddol yn eich achos pryd y byddant yn cael eu hasesu.

### Pan fyddwch yn adrodd trosedd

Bydd eich anghenion yn cael eu hasesu i ddechrau gan swyddog heddlu yn fuan yn yr achos, er enghraifft wrth adrodd trosedd neu roi datganiad i'r heddlu.

Bydd yr asesiad hwn yn ystyried a oes gennych unrhyw anghenion diogelu ar fyrder, a allai nodwedd fregus gael effaith niweidiol ar ansawdd eich tystiolaeth ac felly a ydych yn gymwys i gael **Hawliau Estynedig** (gw. y Rhagarweiniad). Gofynnir hefyd sut y byddech yn hoffi iddynt gysylltu â chi yn ystod yr asesiad hwn.

### Yn ystod yr ymchwiliad

Nes ymlaen yn eich achos, gan adeiladu ar yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr asesiad cychwynnol, bydd eich anghenion yn cael eu hasesu eto gan yr heddlu neu'r Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion. Bydd hyn er mwyn helpu i weld a oes gennych anghenion eraill sydd angen gwneud addasiadau ar eu cyfer wrth i chi symud drwy'r System Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys anghenion cyfathrebu, iechyd neu anabledd penodol.

Fel rhan o'r asesiad hwn, gallent hefyd ofyn i chi sut yr ydych yn teimlo am fynd i'r llys a rhoi tystiolaeth pe bai'r achos yn mynd i dreial. Os ydych yn fregus neu wedi cael eich bygwth, (gw. **Hawliau Estynedig** yn y rhagarweiniad i'r Cod hwn), rhaid iddynt ystyried a ydych yn gymwys i gael mesurau arbennig (gw. **Hawl 8**) neu gymorth gan Gyfryngwr Cofrestredig (gw. **Hawl 1**). Gallai unrhyw fanylion personol yr ydych yn fodlon eu rhannu (fel gwybodaeth ddemograffig ac unrhyw nodweddion a warchodir sydd gennych o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) gael eu casglu fel rhan o'r asesiad anghenion manwl hwn. Gall hyn helpu darparwyr gwasanaeth i gwrdd yn well â'ch anghenion.

### Cyn mynd i'r llys

Os bydd gofyn i chi fynd i'r llys a/neu rhoi tystiolaeth, bydd eich anghenion yn cael eu hasesu gan yr heddlu neu Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion. Bydd hyn yn digwydd fan bellaf pan gewch wybod dyddiad y treial. Gall yr heddlu neu'r Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yna geisio ateb unrhyw bryderon ymarferol a allai fod gennych, eich cyfeirio at wasanaeth cymorth tystion, a thrafod y posibilrwydd o roi tystiolaeth yn y llys gan ddefnyddio mesurau arbennig (gw. para. 8.6).

**Os ydych dan 18 oed: pryd a sut fydd eich anghenion yn cael eu hasesu**

Pan siaradwch gyntaf â'r heddlu, byddant yn gofyn cwestiynau i chi i ddeall sut orau i'ch cefnogi drwy'r broses cyfiawnder troseddol, gan gynnwys sut y byddech yn hoffi i bobl gyfathrebu gyda chi.

Os ydych o dan 12 oed, byddant yn siarad â chi am eich anghenion gyda'ch rhiant neu warcheidwad.

Os ydych dros 12 oed, byddant yn siarad â chi'n uniongyrchol i weld a oes unrhyw beth a allai eich gwneud yn arbennig o fregus, ac i weld a allwch neu a ydych eisiau siarad â nhw'n uniongyrchol. Byddant hefyd yn ystyried a fyddai'n well i oedolyn, fel eich rhiant neu warcheidwad, gyfathrebu a gofyn iddynt roi barn ar eich rhan.

Lle bo'n bosib, dylai'r heddlu siarad â chi yn rhywle cyfarwydd i chi a lle'r ydych yn teimlo'n gyffyrddus. Os teimlwch fod angen mwy o amser arnoch neu os teimlwch fod y cwestiynau'n ormod i chi, gallwch ofyn am gael dod yn ôl at bwnc rhywbryd eto neu gymryd seibiant.

Gallent hefyd siarad â'ch rhiant neu warcheidwad ac eraill sy'n rhan o'ch cefnogi, fel y gwasanaethau gofal cymdeithasol.

## Cyfathrebu ac iaith

1.8 Bydd yr heddlu, yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion a, lle bo'n briodol, darparwyr gwasanaeth eraill yn trafod pa mor aml y byddech yn hoffi cael eich diweddaru a sut orau y byddech yn hoffi iddynt gysylltu â chi. Gallwch ddiweddaru eich dewisiadau ar unrhyw adeg. Weithiau ni fydd darparwr yn gallu eich diweddaru a / neu gysylltu â chi yn y ffordd a ddewiswch, ond byddant yn egluro pam wrthych.

1.9 Rhaid i'r heddlu ystyried a fyddech yn elwa o gael cymorth ychwanegol, er enghraifft gan gyfieithydd ar y pryd neu Gyfryngwr Cofrestredig, a bod unrhyw gyfweliad y gellid gofyn i chi gymryd rhan ynddo'n cael ei wneud gan neu drwy weithwyr proffesiynol a hyfforddwyd i'r pwrpas hwnnw.

**Beth yw Cyfryngwr Cofrestredig?**

Mae Cyfryngwr Cofrestredig yn arbenigwr cyfathrebu hunan-gyflogedig sy'n helpu dioddefwyr a thystion bregus gyda thrafferthion cyfathrebu i roi tystiolaeth i'r heddlu ac i'r llys mewn achosion troseddol.

Gallai fod angen help Cyfryngwr Cofrestredig ar ddioddefwr / tyst oherwydd eu hoed, anabledd dysgu, anhwylder meddyliol neu anabledd corfforol sy'n effeithio ar eu cyfathrebu. Mae'n aml yn gwneud y gwahaniaeth rhwng tyst yn gallu rhoi tystiolaeth neu beidio.

Bydd y Cyfryngwr Cofrestredig yn treulio amser gyda chi i ddeall eich anghenion a beth fedrant ei wneud i'ch helpu i gyfathrebu. Ni fyddant yn siarad gyda chi am y drosedd. Gallent ddod gyda chi i'ch cyfweliad gyda'r heddlu i'ch cynorthwyo i roi'r dystiolaeth orau. Os yw eich achos yn mynd i'r llys, byddant yn eich cyfarfod eto i helpu'r llys i ddeall sut i'ch cynorthwyo i roi eich tystiolaeth orau i'r llys.

**Os ydych dan 18 oed: cyfathrebu ac iaith**

Byddwch yn cael cynnig cymorth ychwanegol i ddeall beth sy'n digwydd ac i'ch helpu i gyfathrebu â'r bobl angenrheidiol drwy'r broses cyfiawnder troseddol.

Bydd y cymorth a gynigir i chi'n dibynnu ar asesiad yr heddlu o'ch anghenion. Gallai hyn gynnwys cael cymorth gan gyfieithydd ar y pryd proffesiynol os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf neu unigolyn a allai eich helpu i gyfathrebu ar wahanol bwyntiau yn y broses cyfiawnder troseddol, hynny yw Cyfryngwr Cofrestredig (gw. y blwch uchod).

Gallwch hefyd ddod â rhywun gyda chi i'ch cefnogi, fel ffrind, drwy gydol y broses gyfiawnder. Ni all yr unigolyn yma fod yn dyst arall yn eich achos, ond bydd yr heddlu yn dweud wrthych os felly. Efallai na all yr unigolyn sy'n eich cefnogi fod yn yr ystafell gyda chi bob amser, ond gall fod yn ddefnyddiol i chi gael rhywun yr ydych yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt wrth law i'ch cefnogi cyn ac ar ôl y cyfarfod.

1.10 Rhaid i bob darparwr gwasanaeth gyfathrebu mewn iaith syml a hygyrch a rhaid i bob gwasanaeth cyfieithu / cyfieithu ar y pryd gael ei ddarparu gan weithiwr proffesiynol cymwysedig a bod am ddim i'r dioddefwr.[19] Mae hyn yn cynnwys cyfieithu ar y pryd llafar a dieiriau, er enghraifft os yw'r dioddefwr yn fyddar neu'n drwm eu clyw.

1.11 Os ydych yn cael trafferth deall neu siarad Saesneg, mae gennych **Hawl** i gael cyfieithydd ar y pryd i'ch helpu i ddeall a chyfathrebu'n effeithiol. Bydd hyn yn cael ei ddarparu gan yr heddlu pan fyddwch yn adrodd trosedd[20] ac mewn cyfweliad

[19] Bydd gan ddarparwyr gwasanaeth drefniadau contract ar gyfer gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd a allai nodi pa lefel o gymhwyster sydd ei angen. Er enghraifft, o dan Gynllun Cyfieithwyr a Chyfieithwyr Ar y Pryd Cymeradwy'r Heddlu, rhaid bod â chymwysterau penodol a phrofiad a rhaid eich fetio cyn gallu cael eich cofrestru gyda'r Cynllun.

[20] Mae gennych **Hawl** i adrodd y drosedd mewn iaith yr ydych yn ei deall neu gyda'r cymorth ieithyddol angenrheidiol os nad ydych yn siarad Saesneg.

heddlu; a bydd yn cael ei ddarparu gan yr heddlu ar ran Gwasanaeth Erlyn y Goron neu Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF wrth roi tystiolaeth fel tyst.

1.12 Os ydych yn ddioddefwr ac wedi dioddef trais rhywiol, trais ar sail eich rhyw neu gam-drin domestig, mae gennych **Hawl** i ofyn am gyfieithydd ar y pryd o ryw a rhywedd o'ch dewis chi. Os na fydd hyn yn bosib oherwydd argaeledd, bydd hyn yn cael ei egluro i chi.

1.13 Mae gennych hefyd **Hawl** i dderbyn gael cyfieithiad o unrhyw ddogfen gan yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion os yw'n hanfodol, i bwrpas y cyfweliad neu'r achos llys, gallu darllen dogfen a roddir i chi, gan gynnwys:

- Y gydnabyddiaeth ysgrifenedig o'r drosedd a adroddwyd;
- os yw'n hanfodol i bwrpas y cyfweliad neu'r gwrandawiad llys gallu gweld dogfen benodol sy'n cael ei datgelu i chi, copi o rannau perthnasol y ddogfen;
- gohebiaeth yn rhoi gwybod i chi am ddyddiad, amser a lleoliad y treial;
- canlyniad achos llys a, lle bo'r rheini ar gael, y rhesymau am y penderfyniad; ac
- yr ymateb i unrhyw gŵyn neu gais a wnaed o dan y Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad.

1.14 Gallwch hefyd gael cyfieithiad llafar neu grynodeb o unrhyw un o'r dogfennau a restrir uchod gan yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion, oni bai y byddai hynny'n rhoi tegwch achos llys yn y fantol.

1.15 Ar gyfer achosion a wrandewir yng Nghymru, mae gennych **Hawl** gyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth roi tystiolaeth a bydd y llys yn gwneud y trefniadau angenrheidiol.[21] Os ydych yn gymwys i gyflwyno Datganiad Effaith Dioddefwr i'r Bwrdd Parôl, mae gennych **Hawl** i'w gyflwyno yn Gymraeg, ble bynnag y mae'r troseddwr wedi ei leoli, ac i ofyn am grynodeb o'r penderfyniad yn Gymraeg.

---

[21] O dan Adran 22(1) Deddf Iaith Gymraeg 1993: "Mewn unrhyw achos cyfreithiol yng Nghymru, gall unrhyw barti, tyst neu unigolyn arall sy'n dymuno gwneud hynny siarad Cymraeg". Nid oes angen unrhyw rybudd ymlaen llaw i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achos llys ynadon. Fodd bynnag, weithiau mae angen trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a bydd rhybudd ymlaen llaw'n cael ei roi i'r Uned Iaith Gymraeg er mwyn gwneud y trefniadau angenrheidiol.

# Hawl 2: I gael manylion y drosedd wedi eu cofnodi heb oedi digyfiawnhad

2.1 Mae gennych **Hawl** i gael manylion y drosedd wedi eu cofnodi gan yr heddlu heb oedi digyfiawnhad ar ôl y digwyddiad a dim hwyrach na 24 awr ar ôl i chi adrodd y drosedd. Pan fyddwch yn adrodd digwyddiad, gofynnir i chi roi manylion am y drosedd.

2.2 Os gofynnir i chi wneud datganiad tyst, bydd yr heddlu'n egluro i chi y gallai hyn olygu bod angen i chi roi tystiolaeth mewn llys os yw'r achos yn mynd i dreial.

2.3 Os gofynnir i chi gael eich cyfweld, dylai unrhyw gyfweliad ddigwydd heb oedi digyfiawnhad, dylid cynnal cyn lleied o gyfweliadau â phosib a, lle bo'n bosib, dylai'r un unigolyn eu cynnal. Rhaid i'r heddlu wneud popeth sydd ei angen i sicrhau nad ydych chi (na'ch teulu) yn cael cyswllt diangen â'r unigolyn dan amheuaeth.

2.4 Rhaid i'r heddlu wneud addasiadau ar sail eich anghenion os ydynt yn credu y gallai nodwedd fregus gael effaith niweidiol ar ansawdd eich tystiolaeth (gw. **Hawl 1**). Rhaid iddynt hefyd geisio sicrhau ei fod yn digwydd mewn lle wedi'i ddylunio neu addasu i'r pwrpas. Os nad yw hyn yn bosib, bydd yr heddlu'n egluro pam.

2.5 Mae gennych hefyd **Hawl** i ofyn am gael dod ag unigolyn o'ch dewis i'r cyfweliad, fel aelod o'r teulu. Os nad yw hyn yn bosib, bydd yr heddlu'n egluro pam.

2.6 Os credir eich bod yn fregus neu wedi'ch dychryn (gw. **Hawliau Estynedig**), bydd yr heddlu'n gofyn a hoffech i'ch cyfweliad gyda'r heddlu gael ei fideo-recordio i'w gwneud yn haws i chi egluro beth a ddigwyddodd. Gallai hyn gael ei gyflwyno fel eich tystiolaeth mewn llys. Mae'n bosib hefyd y gallai eich tystiolaeth croesholi ar gyfer y llys gael ei recordio ymlaen llaw yn gynt ac ar wahân i'r treial. Bydd yr heddlu'r trafod yr opsiwn hwn gyda chi.

2.7 Wrth roi eich tystiolaeth yn y treial, os byddwch yn gymwys gallai'r llys adael i chi roi eich tystiolaeth a chael eich croesholi drwy ystafell cyswllt byw o'r llys neu 'o bell', er enghraifft i leihau'r risg o gyfarfod â'r diffynnydd. Ond os byddai'n well gennych, gallwch roi eich tystiolaeth yn y llys. Bydd y ffordd y byddwch yn rhoi eich tystiolaeth yn dibynnu ar gais i'r llys a bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan ynadon neu farnwr.

2.8 Mewn rhai achosion os cawsoch niwed corfforol o ganlyniad i drosedd, gallai'r heddlu ofyn i chi a ydych yn fodlon cael archwiliad meddygol i weld a oes tystiolaeth

a allai helpu'r heddlu i ymchwilio i'r drosedd. Os oes angen archwiliad meddygol ar gyfer yr achos troseddol, rhaid archwilio cyn lleied â phosib a dim ond gyda'ch caniatâd. I'ch helpu i benderfynu, byddwch yn cael gwybod pam fod angen archwiliad, beth fydd yn ei olygu a sut y defnyddir y canlyniadau.

2.9 Os ydych yn ddioddefwr ac wedi dioddef trais rhywiol, trais ar sail eich rhyw neu gam-drin domestig, mae gennych **Hawl** i ofyn bod y swyddog heddlu sy'n cynnal y cyfweliad o ryw a rhywedd o'ch dewis chi. Rhaid i'r heddlu gwrdd â'r cais hwn oni bai y byddai gwneud hynny'n effeithio ar ddelio'n briodol â'r ymchwiliad neu'n rhoi tegwch yr achos yn y fantol fel arall. Er enghraifft efallai na fydd eich cais yn cael ei gwrdd os nad oes swyddog heddlu o ryw eich dewis ar gael o fewn yr amser ac ystyrir y byddai'n well pe bai'r achos yn symud ymlaen yn gynt. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yr heddlu'n egluro pam.

**Os ydych dan 18 oed: adrodd y drosedd**

Os dywedwch wrth rywun sy'n gweithio yn eich ysgol am unrhyw niwed yr ydych yn ei brofi neu wedi'i brofi, mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i gymryd camau i'ch diogelu. Byddant felly'n cymryd camau i sicrhau eich bod yn ddiogel ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch. Weithiau gall ysgolion orfod rhannu gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill sydd hefyd yn gyfrifol am eich cadw'n ddiogel, gan gynnwys y gwasanaethau iechyd, gwasanaethau plant a'r heddlu.

Os yw eich ysgol wedi gwneud adroddiad i'r heddlu, bydd yr heddlu efallai eisiau siarad gyda chi, ond nid oes raid i chi siarad gyda nhw a gallwch newid eich meddwl ar unrhyw adeg. Bydd eich anghenion yn cael eu hystyried bob amser a bydd pawb yn gweithredu er eich lles gorau fel eich bod yn cael y gofal a'r cymorth sydd ei angen arnoch. Os dewiswch siarad gyda'r heddlu, p'un ai y dewiswch gefnogi ymchwiliad heddlu neu beidio, bydd yr heddlu'n eich cyfeirio at wasanaethau cymorth.

**Os ydych dan 18 oed: cael y drosedd wedi'i chofnodi**

Gallai'r heddlu fod angen casglu tystiolaeth gennych i'w helpu i ymchwilio i'r drosedd a gofyn i chi felly am ganiatâd i siarad gyda chi am beth a ddigwyddodd yn fwy manwl – y 'cyfweliad'.

Os yw'r heddlu'n cyfathrebu gyda chi'n uniongyrchol a hefyd gyda'ch rhiant neu warcheidwad, bydd yr heddlu'n egluro pam eu bod yn awyddus i'ch cyfweld ac yn trafod eich opsiynau, er enghraifft a ydych eisiau bwrw ymlaen gyda'r cyfweliad, fideo-recordio'r cyfweliad fel na fydd angen i chi ddweud beth a ddigwyddodd ond unwaith, neu roi datganiad ysgrifenedig yn lle cael eich cyfweld. Byddwch yn cael eich cyfweld gan swyddog heddlu wedi'i hyfforddi'n arbennig, lle bo'n bosib.

Mewn rhai amgylchiadau, gall archwiliad meddygol helpu'r heddlu i gael y dystiolaeth iawn i'ch achos a sicrhau eich bod yn cael y cymorth meddygol sydd efallai ei angen arnoch. Os ydych o dan 16 oed, rhaid i'ch rhiant neu warcheidwad gytuno i hyn ddigwydd. Os ydych yn 16+ oed, gallwch gytuno i hyn eich hun ond dylid hefyd gofyn i'ch rhiant neu warcheidwad a ydynt yn cytuno.

# Hawl 3: I gael gwybodaeth wrth adrodd y drosedd

3.1 Os adroddwch drosedd i'r heddlu neu os adroddir honiad ar eich rhan, neu os cysylltir gyda chi fel dioddefwr yn ystod ymchwiliad, mae gennych **Hawl** i gael cadarnhad o'ch honiad. Bydd hyn yn cynnwys manylion sylfaenol y drosedd, cyfeirnod y drosedd a manylion cyswllt y swyddog heddlu sy'n delio gyda'ch achos. Gall y cadarnhad fod drwy lythyr, e-bost, neges testun neu wedi'i ysgrifennu â llaw.

3.2 Os yw'r heddlu'n ystyried y gallai fod risg o niwed i chi drwy anfon y cadarnhad ysgrifenedig, er enghraifft mewn achosion cam-drin domestig, rhaid iddynt roi cadarnhad mewn ffordd na allai eich rhoi mewn perygl.

3.3 Mae gennych **Hawl** i gael cerdyn ffisegol neu ddigidol gan yr heddlu sy'n eich cyfeirio at y Cod Dioddefwyr. Mae gennych **Hawl** hefyd i gael gwybod gan yr heddlu ymhle gallwch gael mwy o wybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol. Er enghraifft, lle bo hynny'n briodol ac ar gael, sut i ofyn am iawndal (gw. **Hawl 5**), mynediad at gymorth meddygol, cymorth arbenigol fel cymorth seicolegol (gan gynnwys therapi a chwnsela cyn treial) a rhywle arall i aros.

3.4 Bydd yr heddlu hefyd yn egluro pa drefniadau sydd ar gael os nad ydych yn byw yng Nghymru a Lloegr. Os ydych yn deulu agos i rywun a fu farw drwy drosedd, bydd yr heddlu'n rhoi pecyn gwybodaeth i chi.

**Mynediad i gefnogaeth ar gyfer cam-drin domestig**

Os ydych yn profi cam-drin domestig, mae nifer o fudiadau ar gael i roi cyngor a chymorth ar sut i ddod o hyd i rywle diogel i fyw. Mae'r Llinell Cam-drin Domestig Genedlaethol yn cael ei staffio 24 awr y dydd, pob dydd o'r flwyddyn, gan dîm o arbenigwyr drwy ffonio 0808 2000 247. Mae'r Llinell Gyngor i Ddynion ar gael o 10am tan 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener ar 0808 8010 327. Mae'r Samariaid hefyd yn cael eu staffio pob dydd, 24 awr y dydd, a gallwch eu ffonio ar 116 123. Neu, gall amryw o wasanaethau eraill gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Meddygon Teulu, fferyllfeydd a Chyngor ar Bopeth roi mwy o wybodaeth a'ch cyfeirio at gymorth yn eich ardal chi.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: www.gov.uk/report-domestic-abuse. Mae gan y rhan fwyaf o wefannau cymorth cam-drin domestig opsiynau gadael ar frys i rai sydd heb lawer o amser. Os ydych mewn perygl taer ar y funud, dylech ffonio'r heddlu ar 999.

**Adrodd trais rhywiol neu ymosodiad rhywiol**

Os ydych yn adrodd trais rhywiol neu ymosodiad rhywiol, mae gwybodaeth am y broses adrodd, beth allai ddigwydd ar ôl adrodd, a pha gymorth sydd ar gael yn www.gov.uk/government/publications/guides-for-victims-of-rape-and-sexual-assault

3.5 Os yw'r troseddwr yn oedolyn, mae gennych **Hawl** i gael gwybodaeth am Gyfiawnder Adferol gan yr heddlu a sut i gael gwasanaethau Cyfiawnder Adferol yn eich ardal leol. Os yw'r troseddwr dan 18 oed, mae gennych **Hawl** i gael gwybodaeth am Gyfiawnder Adferol gan y Tîm Troseddwyr Ifanc.[22]

3.6 Er mai'r heddlu sy'n gyfrifol i ddechrau am roi gwybodaeth i chi am Gyfiawnder Adferol, rhaid i bob darparwr gwasanaeth ystyried a fyddai o fantais i chi gael yr wybodaeth yma ar unrhyw bwynt yn y broses cyfiawnder troseddol.

**Beth yw Cyfiawnder Adferol?**

Cyfiawnder Adferol yw proses sy'n dod â'r bobl a niweidiwyd gan drosedd, a'r rhai sy'n gyfrifol am y niwed, at ei gilydd i gyfathrebu. Mae'n rhoi cyfle i bawb a effeithiwyd gan ddigwyddiad chwarae rhan i wneud iawn â'r niwed, sy'n gallu bod yn werthfawr iawn gyda dod o hyd i ffordd ymlaen. Gallai'r cyfathrebu gymryd sawl ffurf, i rai gallai olygu cyfarfod â'r troseddwr wyneb yn wyneb; i eraill gallai'r cyfathrebu fod drwy lythyr, cyfweliad wedi'i recordio neu fideo. Pa bynnag Gyfiawnder Adferol sydd fwyaf addas i chi, bydd hwyluswyr hyfforddedig yn eich paratoi a'ch cefnogi drwy gydol y broses.

Mae Cyfiawnder Adferol yn wirfoddol i'r holl bartïon a rhaid i bob ochr gytuno, gan gynnwys yr hwyluswyr, ei bod yn ddiogel a phriodol ei drefnu. Bydd ond yn digwydd os ydych chi a'r troseddwr, ar ôl cydnabod ffeithiau sylfaenol yr achos, eisiau cymryd rhan. Nid oes raid i chi gymryd rhan a gallwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Gallwch ofyn am gyfrannu at Gyfiawnder Adferol ar amser sy'n addas i chi. Efallai y cewch gyfle i chi gymryd rhan oherwydd bod y troseddwr wedi cael eu cyfeirio a'u hasesu i fod yn ddiogel.

3.7 Bydd yr heddlu'n rhoi'r holl wybodaeth o dan yr **Hawl** yma i chi cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac **o fewn 5 diwrnod gwaith** i'w cyswllt cyntaf gyda chi.

[22] Mae Tîm Troseddwyr Ifanc (a elwir weithiau'n Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid) yn dîm aml-asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant rhwng 10 ac 17 oed sydd wedi troseddu neu sy'n cyflwyno risg o droseddu. Maen nhw'n cael eu cydlynu gan awdurdod lleol ac, fel rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid, yn cael eu monitro gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

**Os ydych dan 18 oed: cael gwybodaeth**

Dylai'r heddlu roi gwybodaeth yn uniongyrchol i chi a / neu i'ch rhiant neu warcheidwad yn unol â'r hyn a gytunoch gyda nhw. (Fel arfer, bydd yr heddlu'n rhoi gwybodaeth i'ch rhiant neu warcheidwad os ydych o dan 12 oed ac i chi a'ch rhiant neu warcheidwad os ydych yn 12+ oed.)

# Hawl 4: I hunan-gyfeirio a / neu gael eich cyfeirio at wasanaeth cymorth dioddefwyr

4.1 Mae gwasanaethau cymorth dioddefwyr yn eich helpu i ymdopi a, cyn belled â phosib, i adfer yn dilyn trosedd. Mae gan bob dioddefwr unigol yn ôl diffiniad y Cod hwn (gan gynnwys rhai sydd heb adrodd y drosedd) **Hawl** i gyfeirio a/neu gael eich cyfeirio at wasanaethau cymorth. Mae ystod o wahanol fathau o wasanaethau cymorth a allai eich helpu, gan gynnwys cyngor, cymorth meddygol, ymarferol a / neu emosiynol, sydd ar gael dros y ffôn, ar-lein ac wyneb yn wyneb.

4.2 Bydd y gwasanaethau ar gael yn amrywio yn ôl beth sydd ar gael yn eich ardal leol. Byddant yn ceisio rhoi mynediad amserol at gymorth sy'n ymateb i'ch anghenion. Mae'r cymorth am ddim i ddioddefwyr. Am fwy o wybodaeth am y cymorth sydd yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch Comisiynydd Heddlu a Throseddu lleol, drwy fynd i https://www.apccs.police.uk/find-your-pcc neu: https://victimandwitnessinformation.org.uk/find-support

4.3 Os adroddwch drosedd i'r heddlu, ac rydych yn ddioddefwr trosedd neu'n aelod teulu agos i rywun a fu farw drwy drosedd, mae gennych **Hawl** i gael eich cyfeirio gan yr heddlu at wasanaeth cymorth dioddefwyr, gan gynnwys Cyfiawnder Adferol. Byddwch yn cael eich cyfeirio at wasanaeth cymorth **o fewn 2 ddiwrnod gwaith** i adrodd y drosedd.

4.4 Os ydych yn aelod teulu agos i rywun a fu farw drwy lofruddiaeth neu ddynladdiad, byddwch yn cael cynnig cyfeiriad at y Gwasanaeth Lladdiadau Cenedlaethol[23] a / neu unrhyw wasanaeth cymorth arbenigol perthnasol arall gan yr heddlu neu eich Swyddog Cyswllt Teulu (gw. **Hawl 6**). Rhoddir mwy o fanylion am y Gwasanaeth Lladdiadau a chymorth arall a allai fod ar gael yn: https://victimandwitnessinformation.org.uk/crime-types/close-relative-killed

4.5 Os bydd angen i chi roi tystiolaeth yn y llys, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfeiriad gan yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion at wasanaeth cymorth tystion (gw. **Hawl 8**). Mae gwasanaethau cymorth tystion yn rhoi cymorth emosiynol ac ymarferol annibynnol am ddim i rai sy'n rhoi tystiolaeth fel tystion mewn achos llys.

[23] Mae'r Gwasanaeth Lladdiadau Cenedlaethol yn wasanaeth am ddim sy'n rhoi cymorth emosiynol, ymarferol, arbenigol a gan ddioddefwyr eraill i deuluoedd a gollodd rywun drwy lofruddiaeth neu ddynladdiad.

4.6 Ar ddiwedd eich achos, beth bynnag yw'r canlyniad, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfeiriad gan yr heddlu neu'r Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion at wasanaeth cymorth er na fyddwch efallai wedi eu defnyddio'n flaenorol.

4.7 Os dewiswch beidio ag adrodd y drosedd i'r heddlu neu beidio â chael eich cyfeirio gan yr heddlu, ond rydych eisiau cael gwasanaeth cymorth nes ymlaen, mae gennych dal **Hawl** i gael gwasanaeth cymorth ar unrhyw adeg, er enghraifft drwy hunan-gyfeirio a chysylltu â'ch gwasanaeth lleol eich hun.

**Mynediad at gymorth meddygol**

Os ydych wedi dioddef trosedd ac mae gennych anghenion iechyd meddwl neu gorfforol o ganlyniad, ac fel arfer yn preswylio yn y DU, mae gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ar gael am ddim i chi. Nid oes angen i chi fod wedi adrodd trosedd i'r heddlu i gael y gwasanaethau hyn.

Os yw rhywun yn ddifrifol wael neu wedi anafu'n ddifrifol a'u bywyd mewn perygl, ffoniwch y gwasanaethau brys ar 999. Os nad yw'n sefyllfa frys sy'n bygwth bywyd, mae nifer o opsiynau i chi. Gallwch:

- Ffonio 111 i gael cyngor meddygol mewn achosion nad ydynt yn rhai brys;
- mynd i'ch canolfan galw heibio GIG leol neu ganolfan gofal brys / uned mân-anafiadau leol neu'r adran Damweiniau ac Achosion Brys (A&E) leol; a / neu
- trefnu i weld neu ffonio eich Meddyg Teulu fydd yn gallu eich cyfeirio at wasanaethau arbenigol, e.e. cymorth iechyd meddwl; neu siarad â fferyllydd.

Rhoddir mwy o wybodaeth am wasanaethau'r GIG yn: www.nhs.uk neu www.gig.cymru/, neu drwy ffonio 111 neu drwy fynd i weld eich Meddyg Teulu.

Mae ystod eang o wasanaethau therapi a chwnsela seicolegol ac emosiynol ar gael mewn amrywiaeth o leoliadau, er enghraifft gan y GIG, asiantaethau gwirfoddol a gwasanaethau preifat. Nid oes angen i chi ohirio cael therapi cyn, yn ystod nac ar ôl unrhyw dreial posib oherwydd bod ymchwiliad neu erlyniad heddlu'n digwydd.

Os nad ydych fel arfer yn preswylio yn y Deyrnas Unedig, efallai y bydd angen i chi dalu am rai gwasanaethau GIG. Nid oes raid i rai ymwelwyr tramor dalu, fel ffoaduriaid, ceiswyr lloches a rhai y penderfynwyd eu bod yn ddioddefwyr caethwasiaeth fodern neu fasnachu mewn pobl. Nid oes raid talu am rai gwasanaethau iechyd eraill ychwaith, fel gofal a roddir mewn adrannau damweiniau ac achosion brys; gwasanaethau gofal sylfaenol; a gwasanaethau i drin cyflwr meddwl neu gorfforol a achoswyd gan arteithio, anffurfio organau cenhedlu (merched), cam-drin domestig neu drais rhywiol.

Rhoddir mwy o fanylion yn www.gov.uk/guidance/nhs-entitlements-migrant-health-guide a https://nwssp.nhs.wales/a-wp/governance-e-manual/putting-the-citizen-first/overseas-visitors-and-the-nhs/

**Os ydych dan 18 oed: cael cymorth gan wasanaethau cymorth dioddefwyr**

Bydd yr heddlu'n eich cyfeirio at wasanaethau cymorth. Gall ystod o wahanol opsiynau fod ar gael gan ddibynnu beth sydd ar gael yn eich ardal a beth sydd ei angen arnoch. Er enghraifft, os cawsoch eich ecsbloetio'n droseddol (gan gynnwys gofyn i chi ddosbarthu cyffuriau neu drin arian neu arfau i osgoi dod o hyd iddynt), yn y lle cyntaf rydych yn ddioddefwr a gallai gwasanaeth achub eich helpu i fynd adre'n ddiogel a helpu i leihau a rhoi diwedd ar eich rhan yn y mater yn ddiogel.

Weithiau mae 'eiriolwyr annibynnol' ar gael i'ch cefnogi. Gallent fod yn arbenigo mewn cefnogi plant a phobl ifanc neu fathau arbennig o droseddau, fel Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc os cawsoch eich cam-drin yn rhywiol.

Os ydych yn rhiant neu'n warcheidwad, gallai fod gwasanaeth cymorth emosiynol a / neu ymarferol lleol neu ar-lein ar wahân ar gael i chi'n uniongyrchol.

# Hawl 5: I gael gwybodaeth am iawndal

5.1 Pan fyddwch yn adrodd trosedd i'r heddlu, mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr heddlu a, lle bo'n berthnasol, gan ddarparwyr gwasanaeth eraill, am y gwahanol ffyrdd o ofyn am iawndal. Bydd a fyddwch yn gymwys i gael iawndal a'r math perthnasol o iawndal yn dibynnu ar amgylchiadau'r drosedd.

## Iawndal ar orchymyn y llys

5.2 Os yw'r diffynnydd yn pledio neu'n cael eu barnu'n euog, gall y barnwr neu'r ynadon orchymyn iddynt dalu iawndal i chi am unrhyw golled, difrod neu anaf o ganlyniad i'r drosedd. Gallai'r heddlu ofyn i chi am dystiolaeth o golled neu ddifrod, er enghraifft derbynebau neu ddyfynbrisiau am drwsio difrod a achoswyd yn ystod y drosedd.

5.3 Os nad ydych eisiau cael iawndal gan y troseddwr, gallwch rannu eich barn gyda'r heddlu neu'r Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion ar unrhyw adeg cyn dedfrydu. Bydd y llys yn ystyried eich barn wrth benderfynu gwneud gorchymyn talu iawndal. Wrth benderfynu faint o iawndal i'w dalu, bydd y llys yn ystyried amgylchiadau ariannol y troseddwr a gallai adael i'r troseddwr wneud taliadau fesul ychydig dros gyfnod estynedig o amser. Byddai'r taliadau hyn yn cael eu trosglwyddo i chi wrth i'r llys eu cael gan y troseddwr. Efallai y byddwch eisiau ystyried hyn wrth benderfynu a hoffech gael iawndal neu beidio.

5.4 Bydd y Swyddfa Casglu a Gorfodi Dirwyon Troseddol yn anfon llythyr atoch os yw iawndal yn ddyledus i chi. Bydd y llythyr hwn yn egluro faint o iawndal sydd i'w dalu a sut y gallwch gael eich talu.

**Os ydych dan 18 oed: Iawndal ar orchymyn y llys**

Os oeddech dan 18 oed pan wnaeth y llys orchymyn talu iawndal i chi, gellir talu'r iawndal i'ch cyfrif banc personol os oes gennych un. Os oes gennych gyfrif banc personol, bydd y llythyr iawndal a gewch yn cynnwys ffurflen i chi ei llenwi gyda manylion eich cyfrif banc.

Os nad oes gennych gyfrif banc personol, gall yr iawndal gael ei dalu i riant neu warcheidwad ar eich rhan. Os yw eich rhiant neu warcheidwad yn hawlio ar eich rhan, bydd angen iddynt roi eich manylion, prawf o bwy ydych, a phrawf o'u perthynas gyda chi.

# Y Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol

5.5 Gallai fod gennych hawl i iawndal drwy'r Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol (y Cynllun) ar ôl dioddef anaf corfforol neu feddyliol difrifol, neu golli rhywun agos, o ganlyniad i drosedd dreisgar yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban. Mae hyn yn cynnwys bod yn berthynas agos i rywun a fu farw o ganlyniad i drosedd dreisgar. Gweinyddir y Cynllun gan yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol (CICA).

5.6 Dylech wneud cais cyn gynted â phosib ac o fewn dwy flynedd i ddyddiad y digwyddiad. Mae'r terfynau amser yn y Cynllun yn helpu'r CICA i gael yr wybodaeth sydd ei hangen arno am yr anaf a'i gysylltiad â throsedd dreisgar. Gall y CICA ond ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol.[24]

5.7 Mae gan y Cynllun hefyd feini prawf cymhwyso eraill. Rhaid i'r drosedd fod wedi cael ei hadrodd i'r heddlu. Nid yw eich cais yn dibynnu ar gael troseddwr yn euog ac felly ni ddylech aros i wybod beth yw canlyniad unrhyw dreial troseddol i wneud cais. Fodd bynnag, gallai'r CICA ohirio eich cais nes y gwyddoch beth fydd canlyniad y treial, os nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth i symud ymlaen gyda'ch hawliad.

5.8 Ar ôl i chi wneud cais, bydd y CICA yn cadarnhau pan fyddant wedi cael eich cais. Bydd y cadarnhad hwn yn syth os oedd eich cais ar-lein neu dros y ffôn. Bydd y CICA yn ymateb i bob neges drwy eu ffurflen gyswllt ar-lein o fewn **10 diwrnod gwaith**. Gall y CICA hefyd ofyn i chi, yr heddlu, neu sefydliadau eraill (fel gweithwyr meddygol) am fwy o wybodaeth. Yn unol ag ymarfer deall trawma, bydd y CICA yn cysylltu cyn lleied â phosib â chi ond efallai'n cysylltu os oes angen gwybodaeth feddygol / arall arnynt i benderfynu eich cais.

5.9 Bydd y CICA yna'n ysgrifennu atoch cyn gynted â phosib a, lle bo'n bosib, o fewn 12 mis i dderbyn eich cais, gyda phenderfyniad ar eich cais a gwerth unrhyw daliad. Bydd y CICA hefyd yn egluro bod gennych hawl gael adolygiad o'r penderfyniad gan gynnwys y drefn a'r terfynau amser.

5.10 Bydd taliad o dan y Cynllun yn ystyried unrhyw iawndal neu arian digolledu arall a gewch am yr un anaf, fel iawndal gorchymyn llys neu ddyfarniad sifil am anafiadau personol. Gallai'r CICA ohirio gwneud penderfyniad ar eich cais nes y byddwch wedi cymryd pob cam rhesymol i gael iawndal neu arian digolledu arall a allai fod ar gael.

[24] Oherwydd amgylchiadau eithriadol, ni allai cais fod wedi cael ei wneud yn gynt; ac mae tystiolaeth ar gael bod trosedd dreisgar wedi digwydd a gall swyddog hawliadau wneud penderfyniad heb wneud ymholiadau helaeth pellach.

5.11 Rhoddir mwy o wybodaeth am wneud cais am iawndal drwy fynd i: https://www.gov.uk/claim-compensation-criminal-injury, gan yr heddlu, eich gwasanaeth cymorth lleol, drwy ffonio'r Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol ar 0300 003 3601 neu fynd i: https://contact-the-cica.form.service.justice.gov.uk/

**Os ydych dan 18 oed: Y Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol**

Os oeddech dan 18 oed yn dioddef trosedd dreisgar uniongyrchol, mae gwahanol derfynau amser ar gyfer gwneud cais am iawndal. Y peth gorau bob tro yw gwneud cais i'r Cynllun cyn gynted ag y gallwch ond os adroddwyd y drosedd i'r heddlu cyn eich pen-blwydd yn 18 oed, gallwch wneud cais tan eich pen-blwydd yn 20 oed. Os gwnaethoch golli rhiant neu warcheidwad o ganlyniad i drosedd dreisgar, gallech gael taliad profedigaeth a thaliad plentyn o dan y Cynllun.

Byddai unrhyw daliadau o'r Cynllun fel arfer yn cael eu cadw mewn cyfrif ennill llog nes y byddwch yn 18 oed, er gallai fod yn bosib talu rhywfaint cyn hynny i'r unigolyn gyda chyfrifoldeb rhiant drosoch mewn rhai amgylchiadau. Os ydych yn 16 neu'n 17 oed ac yn byw'n annibynnol, gallech fod yn gymwys i gael y taliad llawn. Gallwch ofyn i'r CICA am hyn.

Os na allwch neu nid ydych eisiau gwneud cais eich hun, gall rhiant neu warcheidwad wneud cais am unrhyw un o'r mathau uchod o iawndal ar eich rhan. Fel rhiant neu warcheidwad, bydd angen i chi roi eich manylion a phrawf o'ch perthynas gyda'r plentyn yr ydych yn gwneud cais ar eu rhan.

Rhoddir gwybodaeth am sut i wneud cais yn: http://www.gov.uk/claim-compensation-criminal-injury

## Y Cynllun Iawndal i Ddioddefwyr Terfysgaeth Dramor

5.12 Er eu bod y tu allan i gwmpas y Cod, gallai fod gan ddioddefwyr o'r DU sy'n cael eu hanafu mewn ymosodiadau terfysgaeth dramor hefyd hawl i iawndal drwy'r Cynllun Iawndal i Ddioddefwyr Terfysgaeth Dramor, sydd hefyd yn cael ei weinyddu gan y CICA. Am fwy o fanylion am wneud cais am iawndal, ewch i: https://www.gov.uk/compensation-victim-terrorist-attack, neu drwy ffonio'r CICA ar 0300 003 3601 neu yn: https://contact-the-cica.form.service.justice.gov.uk/

## Iawndal sifil (di-droseddol)

5.13 Gallai fod yn bosib gofyn am iawndal gan yr unigolyn dan amheuaeth (cyn y treial) neu'r troseddwr (ar ôl eu cael yn euog) y tu allan i'r broses cyfiawnder troseddol. Os

ydych am ystyried gwneud cais am iawndal sifil, dylech ofyn am gyngor a chymorth cyfreithiol gan gyfreithiwr (gw. 5.17).

## Iawndal am dwyll

5.14 Os ydych wedi dioddef sgam Taliadau Gwthio Awdurdodedig, sydd fel arfer yn golygu cael eich twyllo i drosglwyddo arian o'ch cyfrif banc i un yn perthyn i sgamiwr, gallai eich banc ad-dalu'r arian i chi.[25] Mae'n bwysig i chi gysylltu â'ch banc i holi ymhellach a'i adrodd o fewn 13 mis i wneud y taliad.

5.15 Os cawsoch eich targedu gan dwyll taliadau diawdurdod, a gymerodd daliad oddi arnoch heb eich caniatâd, dylech ddweud wrth eich banc neu ddarparwr yn syth. Rhaid i'ch banc ad-dalu'r taliad i chi heb oedi diangen erbyn diwedd y diwrnod busnes nesaf, oni bai fod ganddynt seiliau rhesymol i amau eich bod wedi ymddwyn yn dwyllodrus.

## Cael cyngor cyfreithiol a / neu gymorth i hawlio iawndal

5.16 Os oes angen cyngor a / neu gymorth cyfreithiol arnoch, dylech gysylltu â chyfreithiwr. Os ydych ar incwm isel neu'n cael budd-daliadau, gallech gael Cymorth Cyfreithiol tuag at y gost. I weld a fyddech yn gymwys am Gymorth Cyfreithiol, ewch i: https://www.gov.uk/legal-aid

5.17 I ddod o hyd i gyfreithiwr lleol, cysylltwch â Chymdeithas y Gyfraith yn: https://www.lawsociety.org.uk/

[25] Mae hyn yn berthnasol i daliadau a wnaed ar 7 Hydref 2024 neu wedi hynny.

# Hawl 6: I gael gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad

6.1 Mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr heddlu pan wneir penderfyniadau pwysig am yr ymchwiliad, a lle bo'n berthnasol, am y rhesymau o fewn **5 diwrnod gwaith (1 diwrnod gwaith** o dan **Hawliau Estynedig)** i'r unigolyn dan amheuaeth yn cael:

- eu harestio;
- eu cyfweld dan rybudd;
- eu rhyddhau heb eu cyhuddo; a
- eu rhyddhau ar fechnïaeth yr heddlu neu dan ymchwiliad os yw amodau mechnïaeth yr heddlu'n cael eu newid neu ganslo.

6.2 Os yw'r heddlu'n penderfynu peidio ag ymchwilio i'ch achos, byddant yn egluro pam o fewn **5 diwrnod gwaith (1 diwrnod gwaith** o dan **Hawliau Estynedig).** Bydd yr heddlu hefyd yn cynnig eich cyfeirio at wasanaeth cymorth.

6.3 Os ydych yn aelod teulu agos i rywun a fu farw, mae gennych **Hawl** i gael Swyddog Cyswllt Teulu[26] wedi'i ddyrannu i chi gan yr heddlu, os yw'r Uwch Swyddog Ymchwilio'n credu y byddai'n briodol (mae'n digwydd yn y rhan fwyaf o achosion). Eich Swyddog Cyswllt Teulu fel arfer fydd yr unigolyn cyswllt unigol rhyngoch chi a darparwyr gwasanaeth.

6.4 Os yw'r heddlu wedi arestio'r unigolyn dan amheuaeth ond yn penderfynu eu rhyddhau ar fechnïaeth nes eu cyhuddo, lle bo hynny'n ymarferol rhesymol byddant yn trafod gyda chi a ddylid rhoi amodau ar yr unigolyn dan amheuaeth a beth ddylai'r amodau fod.[27] Byddwch yn cael cyfle i roi eich barn am yr amodau hyn a bydd yr heddlu'n ystyried eich barn wrth wneud penderfyniad terfynol. Os newidir yr amodau ar unrhyw bwynt yn ystod y fechnïaeth ar gais yr unigolyn dan amheuaeth, bydd yr heddlu'n dweud wrthych ac fe gewch gyfle arall i roi eich barn, lle bo'n rhesymol ymarferol.

6.5 Er yn annhebygol, os bydd yr unigolyn dan amheuaeth (cyn y treial) neu'r troseddwr (ar ôl eu cael yn euog) yn dianc o'r ddalfa, bydd yr heddlu'n cysylltu gyda chi. Os

---

26 Mae swyddog cyswllt teulu yn aelod o'r heddlu sydd wedi'i hyfforddi i weithio gyda theuluoedd mewn profedigaeth i sicrhau eu hyder a'u hymddiriedaeth, i gasglu gwybodaeth sy'n cyfrannu at yr ymchwiliad, ac i ddarparu cymorth a gwybodaeth am yr ymchwiliad. Pan fydd swyddog cyswllt teulu yn cael ei neilltuo i achos, bydd yn cael gwybodaeth am yr ymchwiliad gan yr Uned Gofal i Ddioddefwyr a Thystion i'w rhoi i chi. Os na fydd swyddog cyswllt teulu ar gael yn ystod eich achos, bydd yr Uned Gofal i Ddioddefwyr a Thystion yn rhoi'r wybodaeth i chi.

27 Adrannau 30CA a 47ZZA Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

asesir bod yr unigolyn dan amheuaeth neu'r troseddwr yn cyflwyno risg sylweddol o niwed i chi, bydd yr heddlu'n cymryd y mesurau angenrheidiol i'ch diogelu.

6.6 Mae gennych hefyd **Hawl** i gael eich gwarchod rhag cael eich ail-fictimeiddio, bygwth a dial arnoch yn ystod ac ar ôl yr ymchwiliad a'r achos llys. Os ydych yn poeni bod risg daer i'ch diogelwch, dylech ffonio'r heddlu ar **999.**

6.7 Gall ymchwiliad a phenderfynu mynd ag achos i'r llys neu beidio gymryd amser maith a gallai fod cyfnodau hir rhwng un penderfyniad pwysig a'r llall. Bydd yr heddlu'n trafod a fyddech yn hoffi cael cyswllt dros y cyfnod hwn ac yn rhoi manylion cyswllt os oes gennych gwestiynau yn ystod yr ymchwiliad.

## Penderfyniadau'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron

6.8 Mewn rhai achosion, gall yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron benderfynu delio â'r achos heb fynd i'r llys. Gelwir hyn yn benderfyniad y tu allan i'r llys.[28] Bydd yn golygu gallu delio gyda'r digwyddiad yn gymharol gyflym a gallai fod yn fwy effeithiol i atal troseddau pellach.

6.9 Os ydych yn ddioddefwr trosedd, pan fydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn ystyried penderfyniad y tu allan i'r llys, mae gennych **Hawl** i ddisgwyl iddynt holi eich barn a bod eich barn yn cael ei hystyried pan wneir penderfyniad. Os nad yw hyn yn bosib am resymau ymarferol, bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn egluro pam. Bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu'n derfynol ar ôl ystyried amgylchiadau llawn y drosedd a'ch barn chi. Mae gennych **Hawl** i gael gwybod y rhesymau am eu penderfyniad o fewn **5 diwrnod gwaith (1 diwrnod gwaith** o dan **Hawliau Estynedig**) i roi penderfyniad y tu allan i'r llys i'r troseddwr.

6.10 Pan fydd yr heddlu wedi gorffen eu hymchwiliad, byddant efallai'n penderfynu beth ddylai ddigwydd nesaf neu, mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth, yn pasio'r wybodaeth at Wasanaeth Erlyn y Goron fydd yna'n penderfynu cyhuddo'r unigolyn/unigolion o drosedd, ac os felly, beth ddylai'r drosedd honno fod.

---

[28] Opsiynau eraill yn lle erlyn fel rhybuddiadau, rhybuddiadau amodol a hysbysiadau cosb am achosi anhrefn, er mwyn delio â throseddau lefel isel – am y tro cyntaf yn aml – lle na fyddai erlyn o fudd i'r cyhoedd.

6.11 Os ydych yn ddioddefwr trosedd neu'n aelod teulu agos i rywun a fu farw, os bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu peidio â chyhuddo'r unigolyn dan amheuaeth mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr asiantaeth berthnasol o fewn **5 diwrnod gwaith (1 diwrnod gwaith o dan Hawliau Estynedig)** i'r penderfyniad am:

- y rhesymau am y penderfyniad;
- sut y gallwch gael mwy o wybodaeth;
- sut i ofyn am adolygiad a chyflwyno sylwadau o dan Gynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad Gwasanaeth Erlyn y Goron neu Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu; a
- sut i gael eich cyfeirio at wasanaeth cymorth.

6.12 Os ydych yn ddioddefwr trosedd neu'n aelod teulu agos i rywun a fu farw, os bydd yr unigolyn dan amheuaeth yn cael eu cyhuddo o drosedd(au) mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr heddlu o fewn **5 diwrnod gwaith (1 diwrnod gwaith o dan Hawliau Estynedig**) am:

- ba drosedd y cawsant eu cyhuddo ohoni;
- dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad llys cyntaf; ac
- os yw'r unigolyn dan amheuaeth yn cael eu rhyddhau ar fechnïaeth i ymddangos yn y llys, am unrhyw amodau mechnïaeth ac unrhyw newid iddynt.

6.13 Os bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron, ar ôl i'r unigolyn dan amheuaeth gael eu cyhuddo o drosedd(au), yn penderfynu stopio cyhuddiad a symud ymlaen â chyhuddiad arall neu stopio'r achos, mae gennych **Hawl** i gael gwybod pam. Os penderfynir stopio'r achos, mae gennych **Hawl** i gael gwybod sut y gallwch ofyn am adolygiad o dan Gynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad Gwasanaeth Erlyn y Goron, os byddwch yn anghytuno â'u penderfyniad.

## Cyfarfodydd â Gwasanaeth Erlyn y Goron i drafod penderfyniadau

6.14 Os ydych yn aelod teulu agos i rywun a fu farw mewn achos cymwys,[29] mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod â Gwasanaeth Erlyn y Goron cyn neu'n dilyn penderfyniad i gyhuddo unigolyn dan amheuaeth neu beidio. Os penderfynir cyhuddo, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn egluro sut fydd yr achos yn debygol o

[29] Yr achosion pan fydd gan deuluoedd mewn profedigaeth hawl i gyfarfod â'r CPS yw: llofruddiaeth, dynladdiad, dynladdiad corfforaethol, lladdiad teuluol, achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus, achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal a bod yn anffit i yrru o ganlyniad i alcohol neu gyffuriau, achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal neu yrru'n anystyrlon, achosi marwolaeth drwy yrru heb drwydded, tra rydych wedi'ch gwahardd rhag gyrru neu heb yswiriant a dwyn cerbyd gwaethygol gan achosi marwolaeth.

symud ymlaen ac yn ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd yn trafod eich anghenion ac yn cytuno pa mor aml y byddwch yn cael eich diweddaru.

6.15 Os ydych yn ddioddefwr trosedd mewn achos penodedig,[30] os yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dweud wrthych eu bod wedi penderfynu stopio'r achos neu stopio cyhuddiad a gwneud cyhuddiad arall, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod â Gwasanaeth Erlyn y Goron. Ar yr adegau prin pan fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu na fyddai cyfarfod yn briodol, byddant yn egluro'r penderfyniad hwn i chi.

## Cynlluniau Hawl Dioddefwyr i Adolygiad

6.16 Dylai'r rhesymau dros wneud penderfyniadau gael eu hegluro i chi. Os ydych yn anhapus â phenderfyniad gan yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron i beidio ag erlyn unigolyn dan amheuaeth sy'n arwain at stopio eich achos, os ydych yn gymwys, mae gennych **Hawl** i ofyn am adolygiad o dan gynlluniau Hawl Dioddefwyr i Adolygiad Gwasanaeth Erlyn y Goron neu Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Dylid rhoi gwybodaeth i chi am sut y mae'r cynlluniau'n gweithio, gan gynnwys beth allai'r canlyniadau posib fod. Bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn dweud a yw'r penderfyniad yn eich achos yn gymwys am adolygiad neu beidio.

6.17 Os ydych yn anhapus â phenderfyniad gan yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron sydd ddim yn gymwys am adolygiad ffurfiol o dan y Cynllun, gallwch wneud cwyn drwy eu proses gŵynion. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn: https://www.policeconduct.gov.uk/complaints/submit-a-complaint a https://www.cps.gov.uk/feedback-and-complaints

**Beth yw'r Cynlluniau Hawl Dioddefwyr i Adolygiad?**

Pwrpas y cynlluniau yw rhoi adolygiad annibynnol ffurfiol i ddioddefwyr troseddau o benderfyniadau mewn achosion lle y mae'r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron wedi penderfynu peidio ag erlyn, neu benderfynu stopio'r achos. Maen nhw'n gynlluniau gwahanol, gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

[30] Achosion penodedig pan fydd gan ddioddefwyr hawl i gyfarfod â'r CPS yw: cam-drin plant; troseddau rhyw; troseddau a waethygwyd gan ffactorau hil a chrefydd; troseddau gydag elfen homoffobig neu drawsffobig; troseddau a waethygir gan elyniaeth anabledd; ac achosion wedi eu cymell gan elyniaeth oedran.

Byddwch yn cael gwybod pa benderfyniadau y gellir eu hadolygu, sut i ofyn am adolygiad a'r canlyniadau posib (fel cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol neu wrthdroi penderfyniad a allai arwain at ddechrau neu ail-ddechrau'r ymchwiliad neu'r erlyniad). Os yw penderfyniad yn gymwys i'w adolygu o dan y cynlluniau, nid oes angen i chi roi unrhyw reswm na chyfiawnhad dros ofyn am adolygiad. Y cwbl sydd ei angen yw cais syml eich bod yn dymuno i'r penderfyniad gael ei adolygu.

### Yr Heddlu

Mae Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad yn rhoi hawl i chi ofyn am adolygiad o benderfyniad yr heddlu i beidio ag erlyn[31] unigolyn dan amheuaeth. Mae'n berthnasol i achosion lle y mae yr unigolyn dan amheuaeth wedi'i adnabod a'i gyfweld dan rybudd, naill ai ar ôl arestio neu'n wirfoddol. Mae gennych hawl i ofyn am adolygiad os yw'r heddlu'n penderfynu:

- peidio â chyhuddo mewn achosion lle y mae ganddynt awdurdod i gyhuddo; neu
- nid yw'r achos yn bodloni'r prawf ar gyfer cyfeirio'r mater at Wasanaeth Erlyn y Goron am benderfyniad cyhuddo.

Rhoddir mwy o wybodaeth am y broses adolygu a sut i ofyn am adolygiad yn eich ardal leol drwy fynd i: https://www.police.uk/advice/advice-and-information/victim-support/victims-right-review-scheme/

### Gwasanaeth Erlyn y Goron

Mae'r Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad yn rhoi **Hawl** i chi ofyn am adolygiad o benderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron i beidio â dechrau erlyn neu stopio erlyn.

O dan y Cynllun gallwch ofyn am adolygiad o'r penderfyniadau canlynol gan Wasanaeth Erlyn y Goron:

- peidio â chyhuddo, erlyn neu symud ymlaen fel arall ag achos yn erbyn unrhyw un o'r rhai dan amheuaeth yn eich achos; [32]
- peidio â pharhau (neu dynnu'n ôl mewn Llys Ynadon) â'r holl gyhuddiadau gan felly ddod â'r achos i ben;

[31] Mae Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad yr Heddlu'n ymwneud yn benodol â phenderfyniadau i beidio ag erlyn. Nid yw ar gyfer penderfyniadau cofnodi trosedd neu benderfyniadau i beidio â pharhau ag ymholiadau.

[32] Pan fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu cyhuddo, erlyn neu ddwyn achos yn erbyn un neu rai ond nid pob un o'r rhai sydd dan amheuaeth yn eich achos, nid yw'r penderfyniad, yn gyffredinol, yn gymwys i'w adolygu. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir ystyried penderfyniad o'r fath o dan y Cynllun.

- cynnig dim tystiolaeth yn yr achos;[33] neu
- gadael i bob cyhuddiad yn yr achos “orwedd ar y ffeil” (dyma’r term a ddefnyddir mewn amgylchiadau lle y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu peidio â symud ymlaen a gofyn i’r cyhuddiadau “orwedd ar y ffeil” wedi eu marcio fel “peidio â symud ymlaen heb ganiatâd y Llys hwn neu’r Llys Apêl’).

Rhoddir mwy o wybodaeth am ba benderfyniadau sy’n gymwys am adolygiad o dan y cynllun, am y broses adolygu, a’r canlyniadau posib ar ôl adolygu, yn: www.cps.gov.uk/legal-guidance/victims-right-review-scheme

**Os ydych dan 18 oed: gofyn am adolygiad o rai penderfyniadau mewn achos**

Gallwch ofyn yn uniongyrchol i’r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron am adolygiad o’ch achos o dan y Cynlluniau Hawl Dioddefwyr i Adolygiad. Gall eich rhiant neu warcheidwad wneud hyn ar eich rhan os yw’n well gennych.

Bydd yr ymateb i’r cais fel arfer yn cael ei roi i bwy bynnag a gyflwynodd y cais, felly os gofynnodd riant neu warcheidwad ar eich rhan, gallai’r ymateb ddod iddyn nhw.

[33] Ni ellir cychwyn neu ailgychwyn rhai penderfyniadau cymwys, fel rhai sy’n ‘cynnig dim tystiolaeth’. Mae hyn oherwydd bod y penderfyniadau hyn yn derfynol ac ni ellir ailgychwyn yr achos; gall unrhyw iawn yn yr amgylchiadau hyn gynnwys eglurhad ac ymddiheuriad.

# Hawl 7: I wneud Datganiad Effaith Dioddefwr

Mae Datganiad Effaith Dioddefwyr yn rhoi cyfle i chi egluro, yn eich geiriau eich hun, sut yr effeithiodd trosedd arnoch yn gorfforol, emosiynol, ariannol neu fel arall. Mae'n wahanol i ddatganiad tyst y gofynnwyd ichi ei ddarparu, o bosib, am yr hyn y gwnaethoch ei weld a'i brofi ar yr adeg pan gyflawnwyd y drosedd. Os bydd y troseddwr yn cael ei ganfod yn euog, bydd eich Datganiad Effaith Dioddefwr yn cael ei gyflwyno i'r llys fel tystiolaeth yn ystod y broses ddedfrydu, i gynorthwyo'r llys wrth ystyried difrifoldeb y troseddu yn rhan o'u proses o wneud penderfyniad.

## Cael effaith trosedd wedi'i hystyried cyn penderfynu cyhuddo

7.1 Bydd yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ystyried sut yr effeithiodd y drosedd arnoch wrth benderfynu cyhuddo.

7.2 Os byddwch yn gwneud datganiad tyst i'r heddlu, gofynnir i chi am effaith y drosedd arnoch. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi egluro, yn eich geiriau eich hun, sut yr effeithiodd trosedd arnoch yn gorfforol, emosiynol, ariannol neu fel arall.

7.3 Os nad ydych yn gwneud datganiad tyst, er enghraifft os ydych yn aelod teulu agos i rywun a fu farw o ganlyniad i drosedd, bydd yr heddlu a / neu Wasanaeth Erlyn y Goron dal yn defnyddio'r dystiolaeth sydd ganddynt i ystyried effaith y drosedd arnoch wrth benderfynu cyhuddo.

## Gwneud Datganiad Effaith Dioddefwr ar ôl cyhuddo unigolyn dan amheuaeth

7.4 Mae gennych **Hawl** i wneud Datganiad Effaith Dioddefwr ffurfiol fel bo'ch llais yn parhau i gael ei glywed ar nifer o wahanol bwyntiau yn y broses cyfiawnder troseddol ar ôl cyhuddo unigolyn dan amheuaeth.

7.5 Gallwch ddewis gwneud Datganiad Effaith Dioddefwr cyn y treial. Mae'r datganiad hwn yn cael ei ystyried gan y barnwr neu'r ynadon wrth benderfynu pa ddedfryd i'w rhoi i ddiffynnydd ar ôl pledio'n euog neu eu cael yn euog. Byddwch yn cael cyfle i wneud hyn gan yr heddlu wrth gael gwybod am gyhuddiad ac eto gan yr Uned

Gofal Dioddefwyr a Thystion neu'r Swyddog Cyswllt Teulu wrth gael gwybod am ddyddiad y treial. Gallwch wneud hyn ar unrhyw adeg cyn dedfrydu'r troseddwr ond byddai'n well ei wneud cyn i'r treial ddechrau rhag ofn i'r dedfrydu ddigwydd yn gyflym.

7.6 Mewn rhai achosion lle mae nifer uchel o ddioddefwyr yn gysylltiedig ag achos, megis twyll buddsoddi ar raddfa fawr gyda nifer o ddioddefwyr sy'n fuddsoddwyr, efallai na fydd yn gymesur i bob dioddefwr roi datganiad unigol. Mewn achosion o'r fath, bydd y darparwr gwasanaeth sy'n ymchwilio i'r drosedd yn sicrhau bod lleisiau dioddefwyr yn cael eu cynrychioli trwy Ddatganiadau Effaith Dioddefwyr gan rai dioddefwyr ond nid pob un.

7.7 Efallai y bydd gennych hawl i wneud Datganiad Effaith Dioddefwr nes ymlaen yn y broses cyfiawnder troseddol ar ôl dedfrydu troseddwr (gw. Hawl 9 i gael gwrandawiad Llys Apêl, a Hawl 11 i gael gwrandawiad parôl, gwrandawiad Adolygu Tariff, neu wrandawiad Tribiwnlys Iechyd Meddwl).

7.8 Yn ogystal â bod unigolyn cyswllt enwebedig busnes yn gallu gwneud Datganiad Effaith Dioddefwr, gall busnes o bob maint hefyd wneud **Datganiad Effaith Busnes** i'r heddlu, fydd yn cael ei ddefnyddio yn yr un ffordd mewn llys â Datganiad Effaith Dioddefwr. Bydd yn gyfle i'r busnes egluro sut yr effeithiodd trosedd arnynt, drwy golled ariannol uniongyrchol, tarfu ar weithrediad y busnes neu niwed i enw da.

## Datganiad Effaith ar y Gymuned

7.9 Mewn rhai achosion lle yr effeithiodd trosedd ar gymuned gyfan, gallai'r heddlu gasglu **Datganiad Effaith ar y Gymuned** at ei gilydd i roi llais i'r gymuned yn y system gyfiawnder a chyd-destun i wneuthurwyr penderfyniadau ar effaith ehangach y drosedd.[34] Gallai cymuned fod yn ardal leol neu'n grŵp o bobl sy'n rhyngweithio a rhannu nodweddion, profiadau neu gefndiroedd penodol. Mae hyn yn wahanol i Ddatganiad Effaith Dioddefwr oherwydd fe'i defnyddir i gasglu gwybodaeth am effaith fwy na'r un ar ddioddefwr unigol. Gallai gael ei ystyried wrth wneud penderfyniad i gyhuddo ac wrth benderfynu'r ddedfryd.

## Penderfynu gwneud Datganiad Effaith Dioddefwr neu beidio

7.10 I'ch helpu i benderfynu gwneud Datganiad neu beidio, mae gennych **Hawl** i gael gwybodaeth am broses y Datganiad Effaith Dioddefwr gan yr heddlu. Rhoddir mwy o fanylion a chanllawiau ar sut i ysgrifennu Datganiad yn:

[34] Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol 2023: Dedfrydu

[www.gov.uk/government/publications/victim-personal-statement](http://www.gov.uk/government/publications/victim-personal-statement). Os oes gennych gwestiynau gallwch siarad â'r heddlu, yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu wasanaeth cymorth i ddioddefwyr troseddau. Mae gennych **Hawl** i ddod â rhywun gyda chi am gymorth wrth wneud eich datganiad. Unwaith y byddwch wedi gwneud eich Datganiad Effaith Dioddefwr, gallwch hefyd ofyn am gopi gan yr heddlu.

7.11 Ar ôl gwneud eich Datganiad Effaith Dioddefwr, bydd yn dod yn rhan o bapurau'r llys ac ni allwch ei dynnu'n ôl na thynnu gwybodaeth allan ohono. Fodd bynnag, os cofiwch am rywbeth pwysig neu os teimlwch fod effaith y drosedd arnoch wedi newid, gallwch wneud datganiad ychwanegol drwy'r heddlu ar unrhyw adeg cyn y gwrandawiad dedfrydu.

7.12 Bydd eich datganiad yn helpu'r rhai fydd yn penderfynu i ddeall effaith y drosedd ar eich bywyd. Fel arfer bydd y diffynnydd yn cael darllen y datganiad, ac fel gyda phob tystiolaeth arall, os yw'r llys yn cytuno ei fod yn berthnasol, gall yr amddiffyniad ofyn cwestiynau i chi am gynnwys eich Datganiad. Os yw'r diffynnydd yn pledio neu'n cael eu barnu'n euog, gall y datganiad ddod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus a allai gael ei adrodd gan y cyfryngau os ydych wedi gofyn am ei ddarllen, i recordiad ohono gael ei chwarae, neu i rywun ei ddarllen ar eich rhan yn y llys.

7.13 Os ydych eisiau darllen eich datganiad yn uchel yn y gwrandawiad dedfrydu, bydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu'r Swyddog Cyswllt Teulu'n egluro sut y gallwch ofyn am hyn. Byddwch efallai'n gallu gofyn am fesurau arbennig i'ch helpu (gw. Hawl 8) a allai gynnwys mesurau i'ch gwarchod rhag gorfod gweld y diffynnydd, neu roi tystiolaeth yn breifat heb i'r wasg neu'r cyhoedd gael bod yn ystafell y llys.

7.14 Bydd y barnwr neu'r ynadon yn penderfynu pa rannau o'ch datganiad y dylid eu darllen yn uchel (neu eu chwarae) a pha fesurau arbennig y gellir eu rhoi mewn lle i'ch helpu, a byddant bob amser yn ystyried beth sydd orau gennych wrth wneud eu penderfyniad, oni bai fod rheswm da dros beidio. Bydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu'r Swyddog Cyswllt Teulu'n eich hysbysu o benderfyniad y barnwr neu'r ynadon. P'un ai y darllenir eich Datganiad Effaith Dioddefwr yn uchel neu beidio, bydd dal yn cael ei ystyried yr un fath gan y barnwr neu'r ynadon.

**Os ydych dan 18 oed: Datganiadau Effaith Dioddefwr**

Os ydych dan 12 oed, fel rheol gofynnir i'ch rhiant neu warcheidwad a hoffent wneud Datganiad Effaith Dioddefwr ar eich rhan.

Os ydych dros 12 oed, os yw'r heddlu'n cyfathrebu gyda chi'n uniongyrchol, a hefyd gyda'ch rhiant neu warcheidwad, byddant yn gofyn i chi a hoffech wneud Datganiad Effaith Dioddefwr. Nid oes raid i chi wneud un os nad ydych eisiau neu os ydych yn ei chael yn anodd. Os ydych dal eisiau gwneud un ond ddim am wneud un eich hun, gall eich rhiant neu warcheidwad wneud un ar eich rhan.

# Hawl 8: I gael gwybodaeth am y treial, proses y treial a'ch rôl fel tyst

## Hysbysiad o wrandawiadau a chanlyniadau

8.1 Os yw'r achos yn mynd i'r llys, mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu Swyddog Cyswllt Teulu am amser, dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawiad o fewn **1 diwrnod gwaith** iddynt gael yr wybodaeth hon gan y llys.

8.2 Mae gennych hefyd **Hawl** i gael gwybod gan yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu Swyddog Cyswllt Teulu o fewn **10 diwrnod gwaith (6 diwrnod gwaith o dan Hawliau Estynedig**) am ganlyniad y gwrandawiad perthnasol, gan gynnwys:[35]

- canlyniad unrhyw wrandawiad mechnïaeth (ac amodau mechnïaeth perthnasol, unrhyw newid perthnasol i'r amodau mechnïaeth hyn a'r rhesymau am y newid); a
- a godwyd gwarant i arestio'r unigolyn dan amheuaeth a chanlyniad gwrandawiad os yw'r unigolyn dan amheuaeth yn cael ei ail-arestio.

8.3 Os yw'r unigolyn dan amheuaeth yn pledio'n ddieuog a rhaid i chi fynd i'r llys i roi tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu'r Swyddog Cyswllt Teulu o fewn **1 diwrnod gwaith** iddynt gael yr wybodaeth gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

[35] Bydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yn cael gwybodaeth gan y llys o fewn 5 diwrnod gwaith i ganlyniad y gwrandawiad perthnasol. Bydd gan yr Uned wedyn 5 diwrnod gwaith (1 diwrnod gwaith ar gyfer Hawliau Estynedig) i gyfathrebu'r wybodaeth i chi.

**Help ar gyfer mynychu'r llys**

Mae pobl yn aml yn poeni am orfod mynychu'r llys. Fodd bynnag gall yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion, neu'r heddlu, roi cyngor ac arweiniad ymarferol i'ch helpu. Mae hyn yn cynnwys:

- cael gwybod am beth i'w ddisgwyl yn y llys ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am broses y llys;
- cael cynnig eich cyfeirio at wasanaeth cymorth tystion;
- cael cynnig help gyda chyfarwyddiadau i'r llys a chynllunio a / neu drefnu teithio neu lety;
- cael cynnig help i drefnu gofal plant neu gymorth ychwanegol fel y gallwch fynychu'r llys;
- cael gwybodaeth am sut i hawlio treuliau a lwfansau i dystion;
- cael eich cyfeirio at y CPS, fydd yn ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych am y ddedfryd na fydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yn gallu eu hateb; a
- cael cynnig eich cyfeirio at wasanaethau cymorth dioddefwyr cyn, yn ystod neu ar ôl mynd i'r llys.

**Os ydych dan 18 oed: gwybodaeth am y treial a phroses y treial**

Dylai darparwyr gwasanaeth roi gwybodaeth yn uniongyrchol i chi a / neu i'ch rhiant neu warcheidwad, yn ôl beth a gytunoch gyda nhw. Fel rheol os ydych dan 12 oed dylent roi gwybodaeth i'ch rhiant neu warcheidwad; os ydych yn 12+ oed dylent roi gwybodaeth i chi ac i'ch rhiant neu warcheidwad.

## Mesurau arbennig

8.4 Mae gennych hefyd **Hawl** i gael asesiad o'ch anghenion (gw. **Hawl 1**) o ran pa gymorth sydd ar gael fel y gallwch roi eich tystiolaeth orau yn y llys, a chael cynnig cymorth priodol gan gynnwys eich cyfeirio at wasanaeth cymorth tystion fydd yn gallu trefnu i chi ymweld â'r llys cyn dyddiad y treial fel y gallwch ddod yn gyfarwydd â'r adeilad,[36] neu at wasanaeth cymorth arall (gw. **Hawl 4**).

8.5 Os ydych yn aelod teulu agos i rywun a fu farw, mae gennych **Hawl** i ofyn i'r Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu Swyddog Cyswllt Teulu am gael ymweld â'r llys

[36] Mewn amgylchiadau eithriadol, os yw'r llys y gwnaethoch ymweld â fo'n wahanol i'r un lle y bwriedir cynnal y treial, bydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu eich Swyddog Cyswllt Teulu'n dweud wrthych.

cyn dyddiad y treial i ddod yn gyfarwydd â'r adeilad, p'un ai oes angen i chi roi tystiolaeth neu beidio.

8.6 Bydd yr heddlu neu'r Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yn egluro pa fesurau arbennig[37] y gallwch ofyn amdanynt. Os ydych am i gais gael ei wneud, bydd yr heddlu neu'r Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yn egluro'r broses o wneud cais i chi. Byddant yn holi eich barn am a fydd unrhyw un o'r mesurau hyn, neu gyfuniad o fesurau, yn eich cynorthwyo i roi eich tystiolaeth orau.

8.7 Bydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron a fydd wedyn efallai yn gwneud cais i'r llys am y mesurau arbennig hyn. Bydd yr heddlu neu'r Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yn dweud wrthych beth oedd penderfyniad y barnwr neu ynadon a bydd staff llys Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF yn sicrhau bod unrhyw fesurau arbennig a ganiatawyd ar gael i chi yn y llys.

**Beth yw mesurau arbennig?**

Mae mesurau arbennig cyffredin yn cynnwys: cael sgrîn / llenni o amgylch blwch y tyst neu roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo, naill ai o ystafell arall yn y llys neu o safle cyswllt byw pwrpasol y tu allan i adeilad y llys, fel nad oes raid i chi weld y diffynnydd na'r oriel gyhoeddus. Gellir hefyd defnyddio cyfuniad o'r mesurau hyn.

Mae mesurau eraill yn cynnwys:

- rhoi tystiolaeth yn breifat heb i neb o'r cyhoedd gael bod yn ystafell y llys (gall un aelod o'r wasg fod yn bresennol);
- y barnwr, timau'r amddiffyniad a'r erlyniad yn tynnu eu wigiau a'u gynau yn Llys y Goron;
- defnyddio cymhorthion cyfathrebu neu gael cymorth Cyfryngwr Cofrestredig i ddeall cwestiynau; neu
- rhoi tystiolaeth a chael eich croesholi drwy fideo wedi'i recordio ymlaen llaw, sy'n golygu, yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, nad oes raid i'r tyst roi tystiolaeth yn y treial. Nid yw tystion yn cael newid eu meddyliau o fideo wedi'i recordio ymlaen llaw i fynychu'r llys i roi tystiolaeth, unwaith fydd y fideo wedi cael ei gwblhau.

Am fwy o fanylion am fesurau arbennig ewch i: https://www.cps.gov.uk/victims-guide/victims-guide-support-give-your-evidence-special-measures

[37] Yn dilyn Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA), cyflwynwyd ystod o fesurau y gellir eu defnyddio i hwyluso casglu a rhoi tystiolaeth gan dystion bregus ac sydd wedi eu bygwth. Gelwir y mesurau hyn gyda'i gilydd yn 'fesurau arbennig'. Mae mesurau arbennig yn helpu i leihau peth o'r straen sy'n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth ac ar gael i dystion yr erlyniad a'r amddiffyniad ond nid i'r diffynnydd.

**Os ydych dan 18 oed: cymorth wrth roi tystiolaeth**

Byddwch yn gymwys yn awtomatig ar gyfer rhai 'mesurau arbennig':

- recordio eich tystiolaeth ymlaen llaw mewn cyfweliad fideo;
- recordio eich sesiwn groesholi ymlaen llaw drwy fideo cyn y treial;
- rhoi tystiolaeth drwy gyswllt byw o'r tu allan i ystafell y llys;
- rhoi tystiolaeth y tu nôl i sgrîn fel nad oes raid i chi weld na chael eich gweld gan y diffynnydd neu'r cyhoedd;
- cael Cyfryngwr Cofrestredig i'ch helpu os ydynt yn sylwi eich bod yn cael trafferth deall neu ateb y cwestiynau.

Gall mesurau arbennig eich helpu i roi eich tystiolaeth orau ond nid oes raid i chi eu cael os dewiswch beidio. Bydd gwybodaeth ar gyfer tystion ifanc yn cael ei rhoi i chi a bydd yr heddlu'n trafod eich opsiynau gyda chi a / neu eich rhiant / gwarcheidwad, gan ddibynnu ar ba gyfathrebu gyda chi'n uniongyrchol a gytunoch iddo.

Os byddwch yn 18 oed cyn y gwrandawiad, ni fyddwch yn gymwys yn awtomatig am fesurau arbennig ond bydd yr heddlu'n siarad gyda chi i weld a ydych yn gymwys am reswm arall (Hawl 1). Os cawsoch gyfweliad fideo â'r heddlu, bydd y fideo dal yn cael ei derbyn fel eich tystiolaeth o'r hyn a ddigwyddodd i chi ac mae'n debyg y byddwch yna'n rhoi unrhyw dystiolaeth arall drwy gyswllt byw y tu allan i'r llys.

## Cyfarfodydd gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron

8.8 Os ydych yn aelod teulu agos i rywun a fu farw, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod ag erlynydd neu eiriolwr Gwasanaeth Erlyn y Goron fydd yn cyflwyno'r achos yn y llys. Bydd y cyfarfod hwn fel arfer yn digwydd ychydig cyn y treial ac mae'n gyfle i chi gael eich cyflwyno a gofyn unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

8.9 Os ydych yn oedolyn ac wedi dioddef trais rhywiol neu drosedd rywiol ddifrifol arall a bod yr unigolyn dan amheuaeth wedi cael eu cyhuddo, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod ag aelod o dîm yr erlyniad cyn i chi roi tystiolaeth i'r llys, neu cyn i chi recordio eich sesiwn groesholi ymlaen llaw. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi drafod beth sy'n digwydd nesaf, beth sy'n debygol o ddigwydd os byddwch yn mynd i'r llys, a pha gymorth sydd ar gael i'ch helpu i roi eich tystiolaeth orau. Gallwch hefyd ofyn unrhyw gwestiwn a allai fod gennych am y broses, ond er mwyn sicrhau y gellir defnyddio eich tystiolaeth yn y llys, ni fyddwch yn cael trafod na gofyn cwestiynau am dystiolaeth yr achos.

## Rhoi tystiolaeth yn y llys

8.10 Os bydd angen i chi roi tystiolaeth, byddwch yn gallu cofio'r hyn a ddigwyddodd drwy ddarllen eich datganiad tyst, fydd yn cael ei roi i chi gan dîm yr erlyniad yn y llys (os cyflwynoch eich datganiad tyst fel recordiad fideo, bydd yr heddlu'n rhoi cyfle i chi wylio'r recordiad cyn cael eich croesholi). Os bydd amgylchiadau'n caniatáu, bydd yr erlyniad yn cyfarfod â chi cyn mynd i'r llys i egluro beth fydd yn digwydd a rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau.

8.11 Lle bo'n bosib, byddwch yn gallu dod i mewn i'r llys drwy ddrws gwahanol i'r diffynnydd ac aros mewn ystafell aros ar wahân cyn ac ar ôl i'ch achos gael ei wrando. Nid oes gan rai adeiladau llys ddrysau gwahanol i ddioddefwyr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os gwneir trefniant ymlaen llaw, bydd staff y llys yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau nad oes raid i chi weld y diffynnydd wrth gyrraedd os oes modd.

8.12 Yn ystod y treial, efallai y bydd rhaid i chi aros i roi tystiolaeth. Weithiau mae oedi annisgwyl yn digwydd na ellir ei osgoi a lle bo'n bosib bydd aelod o dîm yr erlyniad, staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, neu aelod o wasanaeth cymorth tystion, yn eich diweddaru ar beth sy'n digwydd. Weithiau bydd angen i chi ddod yn ôl i'r llys ar ddiwrnod arall. Os felly, bydd aelod o dîm yr erlyniad yn egluro pam wrthych.

# Hawl 9: I gael gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apêl

9.1 Ar ddiwedd yr achos mae gennych **Hawl** i gael gwybod, gan yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu eich Swyddog Cyswllt Teulu, beth oedd y canlyniad gan gynnwys, os bydd un ar gael, crynodeb byr o'r rhesymau am y penderfyniad,[38] o fewn **6 diwrnod gwaith** i ganlyniad yr achos.[39]

9.2 Os cafwyd y diffynnydd yn euog, mae gennych **Hawl** i gael gwybod, gan yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu eich Swyddog Cyswllt Teulu, pa ddedfryd a gawsant gan gynnwys eglurhad byr o ystyr ac effaith y ddedfryd, o fewn **6 diwrnod gwaith** i ganlyniad yr achos.[40] Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddedfryd na fydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu eich Swyddog Cyswllt Teulu'n gallu eu hateb, mae gennych **Hawl** i gael eich cyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron i ateb eich cwestiynau.

9.3 Ar yr un pryd mae gennych **Hawl** i gael gwybodaeth gan yr heddlu, yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu Swyddog Cyswllt Teulu am wasanaethau cymorth, gan gynnwys Cyfiawnder Adferol, a sut i gael mynediad atynt yn eich ardal leol.

9.4 Os ydych yn aelod teulu agos i rywun a fu farw:

- mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod â Gwasanaeth Erlyn y Goron ar ôl i'r diffynnydd gael eu canfod yn euog ond cyn eu gwrandawiad dedfrydu, i gadarnhau bod Datganiad Effaith Dioddefwr wedi'i wneud neu i gadarnhau ei fod yn un diweddar (bydd y cyfarfod hwn fel arfer yn y llys);
- mewn achosion lle y cafwyd y diffynnydd yn ddieuog neu'n euog o gyhuddiad llai difrifol, byddwch yn cael cynnig cyfarfod rai wythnosau ar ôl i'r achos ddod i ben, oni bai fod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu bod hyn yn amhriodol.
- Ar yr achlysuron prin pan fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu na fyddai cyfarfod yn briodol, byddant yn egluro'r penderfyniad hwn i chi. Bydd union amseriad y cyfarfod yn dibynnu ar ddymuniad y teulu felly fe gysylltir gyda chi i drafod pryd y dylai'r cyfarfod ddigwydd.

---

[38] Ni fydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yn gallu rhoi eglurhad os yw'r troseddwr yn cael eu barnu'n ddieuog gan reithgor, oherwydd nid oes raid i reithgor roi rhesymau am eu penderfyniad.

[39] Bydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yn cael gwybodaeth gan y llys o fewn 5 diwrnod gwaith i ganlyniad y gwrandawiad. Bydd gan yr Uned wedyn 1 diwrnod gwaith i gyfathrebu'r wybodaeth yma i chi.

[40] Bydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yn cael gwybodaeth gan y llys o fewn 5 diwrnod gwaith i ganlyniad y gwrandawiad. Bydd gan yr Uned wedyn 1 diwrnod gwaith i gyfathrebu'r wybodaeth yma i chi.

- os ydych yn y llys ar gyfer y gwrandawiad dedfrydu, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cwrdd â chi i egluro'r ddedfryd. Os nad ydych yn y llys, bydd modd o hyd ichi ofyn unrhyw gwestiynau i Wasanaeth Erlyn y Goron am y ddedfryd ar ôl i'r heddlu roi gwybod ichi am y ddedfryd.
- mewn achos o lofruddiaeth lle cafwyd y diffynyddion i gyd yn ddieuog o bob cyhuddiad, bydd yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dilyn proses y Safonau Cymorth Cenedlaethol ar gyfer teuluoedd mewn profedigaeth. Mae'r Safonau Cymorth Cenedlaethol ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron yn: www.cps.gov.uk ac mae'r heddlu'n rhoi copi i deuluoedd mewn profedigaeth fel rhan o'r pecyn gwybodaeth a roddir i deuluoedd.

## Os credwch fod dedfryd y troseddwr yn llawer rhy ysgafn

9.5 Gyda rhai achosion a ddedfrydir yn Llys y Goron, gallwch ofyn[41] i'r Twrnai Cyffredinol[42] gyfeirio'r ddedfryd at y Llys Apêl i'w hail-ystyried o dan y 'Cynllun Dedfrydau Rhy Drugarog'.[43] Nid yw'r Cynllun yn berthnasol i ddedfrydau sydd ond yn drugarog ond i rai sy'n cwrdd â'r safon gyfreithiol o fod yn 'rhy drugarog'. Gall dedfryd fod yn 'rhy drugarog' os yw'n disgyn y tu allan i'r ystod o ddedfrydau y gallai'r barnwr fod wedi eu hystyried fel rhai priodol yn yr amgylchiadau.

9.6 Os yw'r Twrnai Cyffredinol yn ystyried bod y ddedfryd yn bodloni'r safon o fod yn 'rhy drugarog', gall gyfeirio'r achos at y Llys Apêl. Mae gan y Cynllun derfyn amser o 28 diwrnod calendr o ddyddiad y ddedfryd i'r Twrnai Cyffredinol fod yn gallu cyfeirio'r achos i'w ailystyried. Mae hyn er mwyn helpu i roi sicrwydd i bawb am y ddedfryd derfynol. Os ydych eisiau i ddedfryd gael ei hadolygu, dylech gyflwyno eich cais cyn gynted â phosib i roi digon o amser i'r Twrnai Cyffredinol ystyried eich cais cyn y terfyn amser cyfeirio o ddiwedd diwrnod busnes ar y 28ain diwrnod (er enghraifft dylech gyflwyno eich cais erbyn y 27ain diwrnod fan bellaf). Os yw'r Llys Apêl yn cytuno bod y ddedfryd yn rhy drugarog, gallai gynyddu'r ddedfryd.

9.7 Bydd yr heddlu yn egluro'r Cynllun i chi pan gewch wybod am y ddedfryd. Rhoddir mwy o fanylion am y Cynllun gan gynnwys pa droseddau sy'n gymwys, sut y mae'r terfyn amser yn gweithredu a sut i wneud cais am adolygiad o ddedfryd, ar gael yn: http://www.gov.uk/ask-crown-court-sentence-review.

---

41 Gall y CPS hefyd gysylltu â'r Twrnai Cyffredinol os oes ganddynt bryderon am y ddedfryd.

42 Y Twrnai Cyffredinol yw prif gynghorydd cyfreithiol y Goron. Mae gan y Twrnai Cyffredinol nifer o swyddogaethau budd cyhoeddus annibynnol a hefyd yn goruchwylio adrannau Swyddogion y Gyfraith.

43 Mae dedfryd yn 'rhy drugarog' os yw'n disgyn y tu allan i'r ystod arferol o ddedfrydau y gallai'r barnwr fod wedi eu hystyried yn rhai priodol.

## Os yw'r troseddwr yn apelio

9.8 Weithiau bydd troseddwr yn gofyn i'r llys edrych ar yr achos neu'r ddedfryd eto. Gelwir hyn yn apêl. Bydd beth fydd yn digwydd nesaf yn dibynnu a fydd y troseddwr yn cael apelio, ac os felly beth fydd canlyniad yr apêl.

## Os gwneir cais i Lys y Goron yn apelio yn erbyn euogfarn neu ddedfryd yn y Llys Ynadon

9.9 Os yw'r troseddwr yn apelio i Lys y Goron, mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu eich Swyddog Cyswllt Teulu o fewn **6 diwrnod gwaith** i ganlyniad y gwrandawiad:[44]

- bod hysbysiad o apêl wedi'i wneud;
- dyddiad, amser a lleoliad unrhyw wrandawiad; a
- canlyniad yr apêl gan gynnwys unrhyw newid i'r ddedfryd wreiddiol.

9.10 Os dymunwch fynychu'r apêl, mae gennych **Hawl** i staff y llys drefnu'r canlynol ar eich cyfer:

- lle bynnag y bo'n bosib, i gael aros ac eistedd yn y llys mewn ardal ar wahân i'r troseddwr, eu teulu a'u ffrindiau;
- i drefnu unigolyn cyswllt ar eich cyfer yn Llys y Goron; ac
- i gael gwybodaeth am wasanaethau cymorth dioddefwyr, lle bo'n briodol ac ar gael.

## Os gwneir cais i'r Llys Apêl yn apelio yn erbyn euogfarn neu ddedfryd, neu os gwneir cais neu apêl i Oruchaf Lys y Deyrnas Unedig mewn achos troseddol ar bwynt o gyfraith

9.11 Os yw'r troseddwr yn apelio i'r Llys Apêl neu i Oruchaf Lys y DU, mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu Swyddog Cyswllt Teulu o fewn **10 diwrnod gwaith (6 diwrnod gwaith** o dan **Hawliau Estynedig**) am ganlyniad y gwrandawiad perthnasol:[45]

- os rhoddwyd caniatâd i'r troseddwr gael apelio yn erbyn yr euogfarn, y ddedfryd neu bwynt o gyfraith;

[44] Bydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yn cael gwybodaeth gan y llys o fewn 5 diwrnod gwaith i ganlyniad y gwrandawiad. Bydd gan yr Uned wedyn 1 diwrnod gwaith i gyfathrebu'r wybodaeth yma i chi.

[45] Bydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yn cael gwybodaeth gan y llys o fewn 5 diwrnod gwaith i ganlyniad y gwrandawiad. Bydd gan yr Uned wedyn 5 diwrnod gwaith (1 diwrnod gwaith ar gyfer Hawliau Estynedig) i gyfathrebu'r wybodaeth yma i chi.

- dyddiad, amser a lleoliad unrhyw wrandawiad ac unrhyw newid i'r wybodaeth yma (o fewn **1 diwrnod gwaith** ar gyfer pob dioddefwr);
- os yw'r troseddwr i gael eu rhyddhau ar fechnïaeth cyn yr apêl neu a newidiwyd yr amodau mechnïaeth (o fewn **1 diwrnod gwaith** ar gyfer pob dioddefwr);
- enw unigolyn cyswllt o staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu Oruchaf Lys y DU;
- canlyniad yr apêl gan gynnwys unrhyw newid i'r ddedfryd wreiddiol; a
- sut i ofyn am gopi, gan staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu Oruchaf Lys y DU, o ddyfarniad y llys unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi.

9.12 Os dymunwch fynychu'r apêl, mae gennych **Hawl** i staff y llys neu staff y Goruchaf Lys drefnu'r canlynol:

- lle bynnag bosib, i gael aros ac eistedd yn y llys mewn ardal ar wahân i'r troseddwr, eu teulu a'u ffrindiau; a
- trefniadau arbennig ar eich cyfer os bydd y troseddwr yn bresennol ac nid ydych eisiau eistedd yn ystafell y llys (mae'n brin i'r troseddwr fynychu gwrandawiadau'r Goruchaf Lys).

9.13 Os penderfynir rhoi hawl i'r troseddwr gael apelio, os ydych yn aelod teulu agos i rywun a fu farw, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod â Gwasanaeth Erlyn y Goron i egluro natur yr apêl a phrosesau'r llys i chi.

9.14 Wrth benderfynu apêl yn erbyn dedfryd, bydd y llys bob amser yn ystyried unrhyw Ddatganiad Effaith Dioddefwr a ystyriwyd gan y llys dedfrydu.

9.15 Fel arfer nid oes angen rhoi Datganiad Effaith Dioddefwr arall i'r Llys Apêl. Fodd bynnag os oes gwybodaeth y dylai'r llys wybod amdani am yr effaith y mae'r drosedd yn parhau i'w chael arnoch, gallai Datganiad Effaith Dioddefwr arall gael ei anfon i'r Llys drwy'r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron.

## Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol

9.16 Mae'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol yn ymchwilio i achosion honedig o gamweinyddu cyfiawnder troseddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gall troseddwr wneud cais i'r Comisiwn am adolygiad o'u heuogfarn a / neu ddedfryd os oes gwybodaeth newydd neu ddadl newydd a allai olygu bod yr euogfarn yn anniogel neu'r ddedfryd yn rhy hir.

9.17 Bydd y Comisiwn, wrth adolygu'r achos, yn asesu'r effaith bosib arnoch chi a phenderfynu a ddylid eich hysbysu.

9.18 Fel arfer ni fydd y Comisiwn yn cysylltu gyda chi dim ond oherwydd eu bod wedi cael cais. Mae hyn oherwydd na fydd y rhan fwyaf o adolygiadau'n arwain at gyfeirio at y llys apêl perthnasol, felly nid oes angen eich rhybuddio bod y troseddwr wedi gwneud cais. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn dweud wrthych os ydynt yn credu bod siawns resymol y gallech ddod i wybod eu bod yn edrych ar achos drwy'r cyfryngau neu ffynhonnell arall. Fel arfer bydd y Comisiwn yn gweithio gyda'r heddlu i roi gwybod i chi bod cais wedi'i wneud ac yn cysylltu â chi eto pan fydd penderfyniad wedi'i wneud i gyfeirio'r achos neu beidio.

9.19 Os yw'r Comisiwn yn penderfynu nad yw'n briodol cysylltu â chi yn ystod yr adolygiad, ond eu bod yn penderfynu wedi hynny i gyfeirio'r euogfarn neu'r ddedfryd at y llysoedd, bydd y Comisiwn yn gwneud eu gorau i gysylltu â chi cyn i'r achos gael ei gyfeirio ar gyfer apêl.

**Sylwadau dedfrydu barnwrol**

Sylwadau dedfrydu barnwrol yw sut y mae barnwr yn egluro'r rhesymau am ddedfryd yn y llys, gan gynnwys amgylchiadau perthnasol yr achos, effaith y drosedd ar y dioddefwr, ac unrhyw gyfraith berthnasol.

Cyfeirir at gopi ysgrifenedig o'r sylwadau dedfrydu fel trawsgrifiad, a gallai'r rhain fod ar gael am ddim i'r dioddefwr os rhoddwyd y ddedfryd yn Llys y Goron ac os oeddech yn rhan o'r achos fel:

- Aelod teulu agos i rywun a fu farw o ganlyniad i lofruddiaeth, dynladdiad, neu drosedd traffig ffordd angheuol.
- Dioddefwr trais rhywiol neu drosedd rywiol, neu unigolion sy'n gwneud cais ar eu rhan.

Gallwch ofyn am gopi ysgrifenedig am ddim o'r sylwadau dedfrydu drwy glicio'r ddolen hon: www.gov.uk/apply-transcript-court-tribunal-hearing

Os na fyddwch yn gymwys i gael trawsgrifiad am ddim o'r sylwadau dedfrydu, gallwch dal ofyn am un os cynhaliwyd yr achos yn Llys y Goron gan ddefnyddio'r un ddolen ag uchod, ond bydd angen i chi dalu oni bai fod y barnwr yn credu bod amgylchiadau arbennig. Bydd y gost yn amrywio yn ôl pa mor hir oedd sylwadau dedfrydu'r barnwr.

Bydd barnwr yn ystyried ceisiadau am drawsgrifiadau fesul achos ac efallai na fydd yn briodol darparu trawsgrifiad llawn bob tro. Er enghraifft, os oes apêl, gallai'r barnwr benderfynu gohirio darparu trawsgrifiad nes y bydd yr apêl wedi gorffen.

### Trawsgrifiadau o'r treial cyfan

Gall unrhyw un ofyn am drawsgrifiad cyfan o wrandawiad cyhoeddus yn Llys y Goron, a bydd barnwr yn penderfynu a ellir ei roi. Gall y barnwr ddweud na ellir cynnwys yr wybodaeth i gyd, er enghraifft os oes cyfyngiadau adrodd yn eu lle. Ar gyfer trawsgrifiad o'r treial cyfan, byddai angen i bawb dalu am hwn a bydd y gost yn dibynnu ar ba mor hir oedd y treial.

### Os ydych dan 18 oed: gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apêl

Dylai darparwyr gwasanaeth roi gwybodaeth yn uniongyrchol i chi a / neu eich rhiant neu warcheidwad gan ddibynnu ar beth a gytunoch gyda nhw. Fel rheol byddant yn rhoi gwybodaeth i'ch rhiant neu warcheidwad os ydych o dan 12 oed, ac i chi ac i'ch rhiant neu warcheidwad os ydych yn 12+ oed.

# Hawl 10: I gael treuliau ac i eiddo gael ei ddychwelyd i chi

10.1 Os byddwch yn mynd i'r llys i roi tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i hawlio rhai treuliau gan Wasanaeth Erlyn y Goron,[46] er enghraifft ar gyfer teithio, gofal plant, colli enillion, lluniaeth a phrydau bwyd (rhoddir mwy o fanylion ar wefan y CPS yn: https://claim-witness-expenses.cps.gov.uk/). Gall Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn ôl eu disgresiwn, dalu lwfansau a threuliau i bobl eraill os credir y byddai hynny'n eich cynorthwyo i roi eich tystiolaeth orau. Bydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion neu eich Swyddog Cyswllt Teulu'n gallu helpu os oes gennych gwestiynau am hawlio treuliau.

10.2 Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn talu unrhyw dreuliau dyledus i chi o fewn **10 diwrnod gwaith** i dderbyn ffurflen hawlio wedi'i llenwi'n gywir.

10.3 Os byddwch yn mynd i garchar neu swyddfa brawf leol i gyflwyno eich Datganiad Effaith Dioddefwr i banel y Bwrdd Parôl neu i arsylwi ar wrandawiad, gallwch hawlio rhai treuliau, er enghraifft ar gyfer teithio, lluniaeth a phrydau bwyd. Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn gallu helpu os oes gennych gwestiynau am hawlio'r treuliau hyn.

10.4 Os cymerodd yr heddlu eiddo oddi arnoch fel tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i'w gael yn ôl cyn gynted ag y bydd yr heddlu wedi gorffen gydag o. Bydd yr heddlu'n gallu helpu os oes gennych gwestiynau am gael eich eiddo'n ôl.

**Os ydych dan 18 oed: talu treuliau i chi**

Os ydych dan 18 oed ac yn mynd i'r llys i roi tystiolaeth, mae gennych hawl i hawlio treuliau drosoch eich hun a hyd at ddau unigolyn arall a allai fod yn eich cefnogi yn y llys, fel eich rhiant neu warcheidwad.

Os oes gennych gyfrif banc, gallwch hawlio treuliau drosoch eich hun. Gall eich rhiant neu warcheidwad hefyd hawlio ar eich rhan.

[46] Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth eraill sy'n gyfrifol am erlyn trosedd fod â rheolau fel bod dioddefwyr efallai'n gallu cael ad-daliad o dreuliau a achoswyd drwy fynychu'r llys i roi tystiolaeth.

# Hawl 11: I gael gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn

## Cysylltu â dioddefwyr ar ôl cael troseddwr yn euog

11.1 Os ydych yn cwrdd â meini prawf cymhwyso'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr neu'r Cynllun Hysbysu Dioddefwyr, bydd yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion yn anfon eich manylion cyswllt at Uned Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Prawf. Yna efallai y bydd Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn cysylltu â chi i ofyn a hoffech gael gwasanaeth a fyddai'n rhoi gwybodaeth i chi ar adegau allweddol yn ystod dedfryd y troseddwr. Byddant yn egluro beth sydd gennych hawl iddo. Gallai hyn gynnwys o leiaf un o'r canlynol:

- eich diweddaru ar unrhyw newid i'r ddedfryd;
- eich diweddaru ar ryddhau'r troseddwr;
- eich cynorthwyo i wneud sylwadau ar amodau trwydded y troseddwr ar ôl eu rhyddhau;
- eich cynorthwyo i wneud Datganiad Effaith Dioddefwr i'r Bwrdd Parôl neu'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl.

11.2 Rydych yn gymwys am y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr os ydych wedi dioddef trosedd rywiol, dreisgar neu derfysgol a'r troseddwr wedi cael carchar o 12 mis neu fwy neu'n cael eu cadw dan glo mewn ysbyty i gael triniaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gyda neu heb gyfyngiadau.

11.3 Rydych yn gymwys am y Cynllun Hysbysu Dioddefwyr os ydych wedi dioddef trosedd stelcian neu aflonyddwch, beth bynnag oedd hyd y ddedfryd o garchar. Mae hyn yn cynnwys torri gorchymyn atal cyswllt.

11.4 Os credwch y dylech fod wedi cael eich cyfeirio neu os penderfynwch beidio â derbyn y cynnig gan Swyddog Cyswllt Dioddefwyr ond rydych wedi newid eich meddwl, gallwch gysylltu â'r gwasanaeth prawf (sy'n rhedeg y cynlluniau) drwy e-bostio: vcsenquiries@justice.gov.uk

11.5 Mae mwy o wybodaeth am gymorth sydd ar gael ar ôl barnu diffynnydd yn euog yn: https://www.gov.uk/get-support-as-a-victim-of-crime

**Os ydych dan 18 oed: cyswllt â dioddefwyr ar ôl barnu troseddwr yn euog**

Os ydych dan 12 oed ac yn gymwys am y cynllun, gofynnir i'ch rhiant neu warcheidwad a hoffent gael gwybodaeth ar eich rhan. Os ydych yn 12+ oed ac yn gymwys am y cynllun, gofynnir i chi ac i'ch rhiant neu warcheidwad. Gallwch newid eich meddwl ar unrhyw adeg.

## Cyswllt dieisiau gan droseddwr

11.6 Os ydych yn cael cyswllt dieisiau gan droseddwr sydd yn y carchar, gallwch gysylltu â Llinell Gymorth Dioddefwyr y Gwasanaeth Prawf ar: 0300 060 6699[47] neu drwy unwantedprisonercontact@justice.gov.uk neu drwy lenwi ffurflen ar-lein yn: https://unwanted-prisoner-contact.form.service.justice.gov.uk/

11.7 Os gewch gyswllt dieisiau gan droseddwr ar drwydded yn y gymuned, gallwch gysylltu â'r heddlu (neu eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr os oes gennych un).

11.8 Os yw'r troseddwr dan 18 oed, gallwch hefyd adrodd unrhyw gyswllt dieisiau i'r heddlu, ond os gwyddoch fod Tîm Troseddwyr Ifanc yn eu goruchwylio, gallwch ddewis cysylltu'n uniongyrchol â'r tîm. Rhoddir manylion cyswllt Timau Troseddwyr Ifanc yn: www.gov.uk/government/collections/youth-offending-team-contact-details

## Pan fydd troseddwr yn cael eu rhyddhau o garchar

11.9 Pan fydd troseddwr yn cael eu rhyddhau o garchar allan i'r gymuned, bydd y troseddwr 'ar drwydded' am weddill eu dedfryd. Mae hyn yn golygu bod y gwasanaeth prawf yn gyfrifol am eu rheoli a'u goruchwylio a bydd ganddynt amodau sy'n rhaid eu cwrdd neu fe allent gael eu galw'n ôl i'r carchar. Os yw'r troseddwr yn eich achos yn cael dedfryd benodol safonol, gellir eu rhyddhau'n awtomatig ar bwynt penodol yn eu dedfryd, gan ddibynnu ar feini prawf eu rhyddhau.

11.10 Pan fydd troseddwr yn cael eu rhyddhau o'r carchar, bydd y gwasanaeth prawf yn eich ystyried chi a'ch diogelwch wrth gynllunio i'w rhyddhau. Bydd ymarferydd prawf y troseddwr yn penderfynu beth sydd angen ei wneud i helpu i ryddhau'r troseddwr yn ddiogel i'r gymuned, gan gynnwys pa amodau trwydded i reoli risgiau penodol.

[47] Dydd Llun tan Ddydd Gwener, 9.00am – 4.00pm.

11.11 Er enghraifft gallai gynnwys gwahardd cyswllt gyda chi a / neu ddioddefwyr eraill, monitro electronig, creu parth cau allan i'w hatal rhag mynd i ardaloedd penodol neu ofyn eu bod yn cael triniaeth am gam-drin sylweddau.

11.12 Gallent ddefnyddio gwybodaeth o'r datganiad dioddefwr i ddeall effaith y drosedd arnoch, a datganiadau tystion neu asesiadau blaenorol i oleuo'r penderfyniad. Rhaid iddynt hefyd ofyn am wybodaeth gan asiantaethau fel yr heddlu, Gwasanaethau Plant ac asiantaethau partner eraill sy'n cysylltu â'r dioddefwr.

## Dioddefwyr troseddwyr y mae'r Bwrdd Parôl yn ystyried eu rhyddhau

11.13 Os oes gan y troseddwr yn eich achos ddedfryd o fath arbennig, gellid gofyn i'r Bwrdd Parôl benderfynu a ddylid eu rhyddhau a beth allai neu na allai'r troseddwr ei wneud ('amodau trwydded') os byddent yn cael eu rhyddhau. Mae'r Bwrdd Parôl yn ystyried rhai troseddwyr ar gyfer parôl (rhyddhau ar drwydded) neu ail-ryddhau'n dilyn cael eu galw'n ôl, ar sail eu risg o niwed i'r cyhoedd. Mae'r rhan fwyaf o garcharorion yn cael eu rhyddhau'n awtomatig heb unrhyw ran gan y Bwrdd Parôl.[48]

11.14 Ar gyfer troseddwyr perthnasol, bydd y Bwrdd Parôl yn ystyried rhyddhau troseddwr pan ddaw eu tariff i ben[49] ac yn rheolaidd ar ôl hynny (pob dwy flynedd o leiaf). Os ydych yn rhan o gynllun cyswllt y Gwasanaeth Prawf, bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn dweud wrthych a fydd hyn yn berthnasol i chi, dyddiadau unrhyw wrandawiadau a'ch hawl i gael llais yn y prosesau'n ymwneud â rhyddhau troseddwr.

11.15 Mae gennych **Hawl** i'r canlynol a bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn egluro sut y gallwch:
- ofyn am amodau trwydded;
- gwneud Datganiad Effaith Dioddefwr, fydd yn cael ei gynnwys yn y papurau a gyflwynir i'r Bwrdd Parôl;

48 Mae'r rhan fwyaf o garcharorion yn cael eu rhyddhau'n awtomatig heb unrhyw ran gan y Bwrdd Parôl. Y prif gategorïau o garcharorion y mae'r Bwrdd Parôl yn gyfrifol am ystyried a ydynt yn addas i'w rhyddhau neu beidio yw: a), carcharorion gyda dedfrydau penodol estynedig sy'n gallu cael eu rhyddhau ar drwydded ar ôl treulio rhan benodol o'u dedfryd yn y carchar, b) carcharorion gyda dedfrydau amhenodol fel rhai gyda dedfryd am oes neu a garcharwyd er mwyn Diogelu'r Cyhoedd, a c) carcharorion gyda dedfrydau penodol safonol sydd wedi eu galw'n ôl i garchar ar ôl torri amodau eu trwydded.

49 'Tariff' yw'r amser lleiaf y mae'n rhaid i droseddwr gyda dedfryd amhenodol ei dreulio yn y carchar, a'r llys sy'n penderfynu hyn.

- gofyn am gael darllen eich Datganiad Effaith Dioddefwr i'r Bwrdd Parôl, i rywun arall ei ddarllen ar eich rhan neu ei recordio ymlaen llaw os yw'r Bwrdd Parôl yn cynnal gwrandawiad;
- gofyn i'r Bwrdd Parôl i'r gwrandawiad fod yn gyhoeddus neu gyflwyno eich barn os yw rhywun arall yn gofyn am wrandawiad cyhoeddus;
- gofyn i'r Bwrdd Parôl am gael arsylwi yn y gwrandawiad;
- gofyn am grynodeb o benderfyniad y Bwrdd Parôl;
- gofyn i benderfyniad y Bwrdd Parôl gael ei ail-ystyried (lle bo'n gymwys) (gw. 11.17 – 11.19); a
- chael gwybodaeth am wasanaethau Cyfiawnder Adferol os oes gennych ddiddordeb ac wedi gofyn, a'i bod yn cael ei rhoi i chi **o fewn 10 diwrnod gwaith** i ofyn.

11.16 Os na fydd y Bwrdd Parôl yn gallu cytuno i'ch cais, neu'n gwrthod eich cais, rhaid iddynt fod â rheswm da dros beidio ac egluro pam.

## Gofyn i benderfyniad y Bwrdd Parôl gael ei adolygu

11.17 Os yw'r Bwrdd Parôl yn barnu ei bod yn ddiogel rhyddhau a rheoli'r troseddwr dan drwydded, bydd y penderfyniad yn un dros dro am 21[50] diwrnod calendr yn y rhan fwyaf o achosion (heblaw am ddedfrydau penodol safonol galw'n ôl[51]). Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn i'r Bwrdd Parôl ailystyried y penderfyniad yn ystod y cyfnod hwn, os gellir dadlau:

- na chafodd y broses gywir ei dilyn wrth adolygu'r troseddwr ar gyfer parôl (er enghraifft, ni chafodd tystiolaeth bwysig ei hystyried); neu
- bod y penderfyniad yn cynnwys gwall cyfreithiol (er enghraifft, mae'r penderfyniad yn ceisio gwneud cyfarwyddyd nad oes gan y Bwrdd hawl gyfreithiol i'w wneud).

11.18 Gall unrhyw un, gan gynnwys chi fel dioddefwr, wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am gael gwneud cais i'r Bwrdd Parôl i ailystyried y penderfyniad, os teimlwch fod y penderfyniad yn cwrdd â'r naill neu'r llall o'r meini prawf hyn. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn y 21 diwrnod. Mae mwy o wybodaeth yma: https://www.gov.uk/guidance/challenge-a-parole-decision

---

50 Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir gofyn am fyrhau'r cyfnod hwn. Os yw hyn yn digwydd, rhoddir gwybod i ddioddefwyr.

51 Mae dedfryd benodol o garchar yn garchar am gyfnod penodol o amser. Bydd y carcharor yn treulio rhan benodol (gan ddibynnu ar hyd y ddedfryd a'r drosedd) o'u dedfryd yn y carchar a'r gweddill yn y gymuned 'ar drwydded'. Os ydynt yn torri amodau eu trwydded, er enghraifft yn ymddwyn yn wael gan felly gynyddu eu risg, gallent gael eu galw'n ôl i garchar i dreulio gweddill eu dedfryd dan glo.

11.19 Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol ond yn gwneud cais i'r Bwrdd Parôl os oes tystiolaeth o gwrdd â'r meini prawf. Os ydych wedi gwneud cais, byddwch yn cael llythyr gan y Gwasanaeth Prawf yn eich hysbysu a fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud cais i ailystyried neu beidio. Os bydd cais yn cael ei wneud, bydd y Bwrdd Parôl yn adolygu'r penderfyniad gwreiddiol ac a ddylid ei newid. Bydd penderfyniad y Bwrdd Parôl yn cael ei gyfathrebu i chi gan y Gwasanaeth Prawf.

## Cyfeirio penderfyniad y Bwrdd Parôl at yr Uchel Lys

11.20 Pan fo carcharor yn bwrw dedfryd amhenodol neu gyfnod penodol am rai troseddau penodedig,[52] gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder atal penderfyniad rhyddhau'r Bwrdd Parôl a'i gyfeirio i'r Uchel Lys i'w adolygu, os yw o'r farn y byddai rhyddhau'r carcharor yn debygol o danseilio hyder y cyhoedd yn y system barôl ac os yw'n credu'n rhesymol y gallai'r Uchel Lys ddod i gasgliad gwahanol ynghylch a yw'n ddiogel rhyddhau'r carcharor. Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn dweud wrthych os caiff penderfyniad y Bwrdd Parôl ei gyfeirio at yr Uchel Lys a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y canlyniad.

### Y Bwrdd Parôl, arsylwi mewn gwrandawiadau a Datganiadau Effaith Dioddefwyr

#### Sut alla i arsylwi mewn gwrandawiad Bwrdd Parôl?

Os ydych eisiau arsylwi mewn gwrandawiad gyda'ch troseddwr i ddeall mwy am sut y mae'r Bwrdd Parôl yn gwneud penderfyniadau, gall eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr helpu gyda'ch cais. Byddwch ond yn gallu mynychu o bell mewn lle addas mor agos i'ch cartref â phosib wedi'i drefnu gan eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr, gan dderbyn cymorth ar y diwrnod gan Gynrychiolydd Dioddefwyr a fyddai'n delio â'r offer i ymuno â'r gwrandawiad ac yn gallu ateb cwestiynau am y gwrandawiad. Byddai'r bobl yn y gwrandawiad yn gwybod bod rhywun yn arsylwi ond ni fyddent yn gallu eich gweld na'ch clywed.

Mater i'r Bwrdd Parôl yw caniatáu eich cais i fynychu neu beidio; bydd y Bwrdd hefyd yn ystyried barn y troseddwr am eich cais i fynychu. Os nad oes gennych Swyddog Cyswllt Dioddefwyr, gallwch wneud cais uniongyrchol i'r Bwrdd Parôl.

[52] Gweler adran 61 a 62 Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024. Mae'r troseddau penodedig yn cynnwys llofruddiaeth, trais rhywiol, troseddau terfysgaeth ac achosi neu ganiatáu marwolaeth plentyn.

### Sut fydd fy Natganiad Effaith Dioddefwr yn cael ei ddefnyddio?

Mae penderfyniad y Bwrdd Parôl i ryddhau'n seiliedig ar risg y troseddwr o achosi niwed i'r cyhoedd. Mae'r asesiad risg hwn yn seiliedig ar dystiolaeth gan bobl a fu'n gweithio gyda'r troseddwr ac sy'n gallu dangos pa gynnydd a wnaethant a sut y maen nhw wedi newid.

Ni fydd eich datganiad felly'n cael ei ystyried gan y Bwrdd Parôl wrth iddo wneud ei benderfyniad rhyddhau. Yn hytrach, mae eich datganiad yn rhoi cyfle i'r Bwrdd Parôl ddeall effaith y drosedd wreiddiol, penderfynu pa gwestiynau i'w gofyn i'r carcharor i ddysgu mwy am ddealltwriaeth y carcharor o sut yr effeithiodd eu troseddau ar y dioddefwyr, a deall cyd-destun eich sylwadau ar amodau trwydded.

Rhoddir canllawiau ar beth y gallwch ei gynnwys yn eich Datganiad Effaith Dioddefwr yn: **www.gov.uk/government/publications/victim-personal-statement**. Gall eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr hefyd eich helpu i'w ysgrifennu. Os nad ydych eisiau i'r troseddwr weld eich datganiad, gallwch ofyn i'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr ofyn am gadw'r datganiad yn ôl.

### Cwestiynau pellach neu help i recordio eich Datganiad Effaith Dioddefwr

Os oes gennych gwestiynau am wneud Datganiad Effaith Dioddefwr, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio neu beth i'w gynnwys, gallwch siarad â'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr. Bydd hefyd yn gallu eich helpu i recordio eich Datganiad Effaith Dioddefwr.

## Dioddefwyr cleifion dan gyfyngiadau sy'n cael eu hystyried ar gyfer rhyddhau gan y Tribiwnlys neu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

11.21 Os yw'r troseddwr yn eich achos yn cael ei gadw mewn ysbyty oherwydd cyflwr meddwl fel 'claf dan gyfyngiadau', bydd eu rhyddhau o ysbyty'n cael ei benderfynu gan:

- y Tribiwnlys Iechyd Meddwl yn Lloegr;
- y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl yng Nghymru; neu
- yr Ysgrifennydd Gwladol, lle y gwneir penderfyniadau gan yr Adran Achosion Iechyd Meddwl ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.[53]

11.22 Bydd y Tribiwnlys neu'r Adran Achosion Iechyd Meddwl yn ystyried a ddylid rhyddhau claf o'r ysbyty os nad ydynt mwyach yn cwrdd â'r meini prawf dros eu

[53] Mae pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddod â gorchymyn cyfyngu i ben yn cael ei ddisgrifio yn Adran 42 Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Mental Health Act 1983 (legislation.gov.uk)).

cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Bydd y Tribiwnlys yn ystyried a ddylid rhyddhau claf dan gyfyngiadau o leiaf unwaith bob tair blynedd, ac, ar y mwyaf, unwaith y flwyddyn. Bydd yr Adran Achosion Iechyd Meddwl fel arfer ond yn ystyried rhyddhau claf o ysbyty pan fydd eu meddyg yn gofyn am adolygiad.

11.23 Os ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn dweud wrthych os yw hyn yn berthnasol i droseddwr eich achos chi. Bydd hefyd yn dweud wrthych am ddyddiad unrhyw wrandawiad a'ch hawl i gael llais yn y broses o ryddhau claf o ysbyty.[54]

11.24 Pan fyddwch yn gymwys, mae gennych hefyd **Hawl** i'r canlynol a bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn egluro sut i wneud hyn. Gallwch:

- ofyn am roi amodau ar ryddhau i leihau'r siawns o ddod ar draws y troseddwr yn y gymuned;
- gwneud Datganiad Effaith Dioddefwr wrth ofyn am amodau a bydd y Tribiwnlys neu'r Adran Achosion Iechyd Meddwl yna'n ei ystyried os penderfynir rhyddhau'r claf;
- gofyn am gael darllen eich Datganiad Effaith Dioddefwr i'r Tribiwnlys, i rywun arall ei ddarllen ar eich rhan neu ei recordio ymlaen llaw os yw'r Tribiwnlys yn cynnal gwrandawiad;
- gofyn am gopi o resymau penderfyniad y Tribiwnlys neu'r Ysgrifennydd Gwladol. Gall hyn gynnwys os a phryd fydd y claf yn cael eu rhyddhau, ac unrhyw amodau newydd neu wedi eu newid ar y claf sydd angen i chi wybod amdanynt. Os yw hyn yn cynnwys gwybodaeth breifat am iechyd a thriniaeth y claf, gall y Tribiwnlys roi crynodeb neu fersiwn wedi'i duo'n hytrach na'r rhesymau llawn.

11.25 Os nad yw'r Tribiwnlys neu'r Adran Achosion Iechyd Meddwl yn gallu cwrdd â'ch cais neu'n ei wrthod, rhaid iddynt roi rheswm da ac egluro pam.

[54] Am fwy o fanylion am sut i wneud sylwadau i'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl, ewch i www.gov.uk/mental-health-tribunal-victim-representations

**Datganiadau Effaith Dioddefwr a'r Adran Achosion Iechyd Meddwl neu'r Tribiwnlys**

**Sut fydd fy Natganiad Effaith Dioddefwr yn cael ei ddefnyddio?**

Mae'r penderfyniad i ryddhau'n cael ei wneud ar sail ystyriaethau clinigol sy'n berthnasol i iechyd meddwl y claf ac a ydynt yn risg iddynt eu hunain, i eraill a / neu i'r cyhoedd. Mae'r asesiad risg yma'n seiliedig ar dystiolaeth gan glinigwyr sydd wedi bod yn gweithio gyda'r claf. Gall y clinigwyr hyn ddangos pa gynnydd therapiwtig a wnaeth y claf, pa mor ddrwg yw eu cyflwr meddwl, a beth y mae hyn yn ei olygu i'r risg iddynt eu hunain ac i eraill.

Ni fydd eich datganiad felly'n cael ei ystyried gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad hwn wrth wneud y penderfyniad. Yn hytrach, bydd yn egluro effaith y drosedd arnoch a chyd-destun yr amodau rhyddhau yr ydych yn gofyn amdanynt.

**Cwestiynau pellach neu help i recordio eich Datganiad Effaith Dioddefwr**

Mae canllawiau ar gael yn https://www.gov.uk/mental-health-tribunal-victim-representations

Os oes gennych gwestiynau am wneud Datganiad Effaith Dioddefwr, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio neu beth i'w gynnwys, gallwch siarad â'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr.

## Dioddefwyr cleifion di-gyfyngiadau y mae meddyg yn ystyried eu rhyddhau

11.26 Os yw'r troseddwr yn eich achos yn cael ei gadw mewn ysbyty oherwydd cyflwr meddwl fel 'claf di-gyfyngiadau', bydd eu rhyddhau o ysbyty'n cael ei benderfynu gan eu meddyg (y 'Clinigydd Cyfrifol' yw'r enw ar yr unigolyn hwn weithiau).

11.27 Bydd y meddyg yn ystyried a ddylid rhyddhau claf di-gyfyngiadau ar sail y Ddeddf Iechyd Meddwl. Os ydych yn gymwys am y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn dweud a yw hyn yn berthnasol i'r troseddwr yn eich achos chi. Bydd hefyd yn egluro sut y gallwch ofyn i'r meddyg roi amodau ar Orchymyn Triniaeth yn y Gymuned y troseddwr.

## Dioddefwyr troseddwyr rhyw

11.28 Mae troseddwyr rhyw cofrestredig yn destun 'gofynion hysbysu', a chyfeirir at hyn weithiau fel bod ar 'gofrestr'. Mae'n golygu bod yn rhaid iddynt roi gwybod i'r heddlu am unrhyw newid i rai o'u manylion personol. Mae'r gofynion hysbysu'n ganlyniad

awtomatig i gael euogfarn neu rybuddiad, ar gyfer trosedd Atodlen 3 o dan Ddeddf Troseddau Rhyw 2003, ond bydd faint o amser y bydd angen i droseddwr gydymffurfio â'r gofynion yn amrywio gan ddibynnu ar eu dedfryd.[55] Mae torri'r gofynion hysbysu'n drosedd a'r gosb yw uchafswm o bum mlynedd yn y carchar.

11.29 Gall troseddwyr gyda gofynion hysbysu gydol oes wneud cais i adolygu'r gofynion ar ôl amser penodol yn dilyn eu hysbysiad cyntaf, sydd fel arfer yn digwydd ar ôl eu rhyddhau o'r carchar. Yr amser penodol yw 15 mlynedd ar gyfer oedolion ac 8 mlynedd ar gyfer troseddwyr iau. Os yw'r troseddwr yn gwneud cais o'r fath, bydd yr heddlu yna'n adolygu'r achos gan gynnwys gwneud asesiad risg i benderfynu a ellir dod â gofynion hysbysu'r troseddwr i ben. Bydd troseddwyr rhyw a asesir i fod yn parhau i gyflwyno risg yn parhau i fod yn destun gofynion hysbysu, a gydol eu hoes lle bo angen.

11.30 Os ydych yn ddioddefwr i droseddwr sy'n gwneud cais o'r fath, mae gennych **Hawl** i ddisgwyl i'r heddlu gysylltu gyda chi i ofyn eich barn am y cais fel rhan o'u hadolygiad. Os oes gennych Swyddog Cyswllt Dioddefwyr, bydd yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am y broses hon.

## Dioddefwyr troseddwyr sy'n wladolion tramor

11.31 Os ydych wedi dioddef trosedd a gyflawnwyd gan wladolyn tramor ac mae'r troseddwr:

- wedi eu hargymell gan lys ar gyfer allgludo am drosedd yn eich erbyn;
- wedi eu dedfrydu i garchar am drosedd dreisgar neu rywiol; neu
- wedi cael dedfryd o 12 mis neu fwy o garchar, neu orchymyn ysbyty, am drosedd yn eich erbyn;

mae gennych felly **Hawl** i gael gwybodaeth am allgludo'r troseddwr.

11.32 Os ydych yn gymwys am gyswllt dioddefwr yn dilyn euogfarn ac mae'r troseddwr yn wladolyn tramor, mae gennych **Hawl** i gael gwybodaeth am allgludo'r troseddwr gan eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr, fydd yn gallu gael diweddariadau gan y Swyddfa Gartref ar eich rhan. Rhaid i'r Gwasanaeth Prawf (Swyddog Cyswllt Dioddefwyr ac ymarferwyr prawf) gymryd pob cam rhesymol i weithio gyda'r awdurdodau mewnfudo i sicrhau, cyn belled â phosib, bod gwybodaeth am statws mewnfudo'r carcharor ac unrhyw wybodaeth allgludo'n cael ei phasio ymlaen i chi.

11.33 Os nad ydych yn gymwys am gyswllt dioddefwr yn dilyn euogfarn, neu wedi optio allan o'r cynllun, mae gennych **Hawl** i ofyn am gael eich diweddaru'n uniongyrchol

[55] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/42/schedule/3

gan Dîm Cymorth Dioddefwyr y Swyddfa Gartref ar achos mewnfudo'r troseddwr sy'n wladolyn tramor. Gallwch gysylltu gyda nhw ar: fnorcvictimssupportteam@homeoffice.gov.uk

11.34 Gall Tîm Cymorth Dioddefwyr y Swyddfa Gartref ddweud wrthych:

- a yw'r Swyddfa Gartref yn bwriadu cymryd camau i allgludo'r troseddwr;
- canlyniad terfynol unrhyw apêl yn erbyn allgludo;
- a fydd y troseddwr yn cael ei ryddhau o uned cadw mewnfudwyr;
- pan fydd y troseddwr wedi cael ei allgludo; neu
- os na fydd y troseddwr yn cael ei allgludo a, lle bo'n bosib, pam ddim.

## Dioddefwyr lle y mae'r drosedd wedi'i chyflawni gan blentyn (dan 18 oed)

11.35 Os yw'r troseddwr yn eich achos dan 18 oed, a chithau'n gymwys am gyswllt dioddefwr yn dilyn euogfarn, bydd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn cyfeirio eich manylion at y Gwasanaeth Prawf ac os dewiswch gael gwybodaeth byddwch yn cael gwybodaeth a gwasanaethau gan eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr. Os nad ydych yn gymwys, gallai'r Tîm Troseddwyr Ifanc holi eich barn cyn dedfrydu a gweld a ydych eisiau bod yn rhan o unrhyw Gyfiawnder Adferol (gw. Hawl 3), lle bo hynny'n briodol ac ar gael.

11.36 Mae gennych **Hawl** i gael yr wybodaeth ganlynol gan y Tîm Troseddwyr Ifanc:

- gwybodaeth am gynnydd achos y troseddwr os gofynnwch; a
- gwybodaeth am wasanaethau cymorth dioddefwyr priodol os gofynnwch am gymorth pellach.

## Adolygiadau Troseddau Pellach Difrifol

11.37 Os yw troseddwr yn cyflawni Trosedd Bellach Ddifrifol[56] tra byddant dan oruchwyliaeth statudol y Gwasanaeth Prawf, neu o fewn 28 diwrnod i'r oruchwyliaeth honno'n dod i ben, bydd y Gwasanaeth Prawf yn gwneud Adolygiad Trosedd Bellach Ddifrifol i weld sut y cafodd yr achos ei reoli ac a oes angen gwneud unrhyw welliannau er mwyn rheoli achosion yn well yn y dyfodol.

[56] Trosedd a restrir yn Atodiad A Fframwaith Polisi Gweithdrefnau Hysbysu ac Adolygu Troseddau Difrifol Pellach 2021. Mae pob trosedd ar y rhestr hon yn wynebu naill ai uchafswm o 14 mlynedd yn y carchar neu ddedfryd amhenodol.

11.38 Mewn rhai achosion,[57] bydd y Gwasanaeth Prawf yn cynnig rhannu canfyddiadau Adolygiad Trosedd Bellach Ddifrifol gyda'r dioddefwr neu eu teulu ar ôl barnu'r troseddwr yn euog. Os yw hyn yn digwydd, mae gennych **Hawl** i ddisgwyl i'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr gysylltu gyda chi i ofyn a hoffech gael cyfarfod ag uwch-reolwr o'r Gwasanaeth Prawf i siarad am ganfyddiadau'r Adolygiad Trosedd Bellach Ddifrifol ac a hoffech gael copi o'r adroddiad. Gallai peth o'r wybodaeth yn yr adroddiad fod wedi cael ei dileu, fel manylion personol am yr unigolyn dan oruchwyliaeth neu am y staff Prawf a fu'n rheoli eu hachos. Fodd bynnag, disgwylir i wybodaeth gael ei dileu dim ond lle bo gwir angen gwneud hynny a rhaid i'r Gwasanaeth Prawf ystyried a fyddai'r wybodaeth yn berthnasol i'ch dealltwriaeth o'r adolygiad.

[57] Llofruddiaeth, dynladdiad, troseddau eraill sy'n achosi marwolaeth, trais rhywiol neu ymosod rhywiol drwy dreiddio, trosedd rywiol yn erbyn plentyn dan 13 oed neu droseddau cymwys o dan ddeddfwriaeth derfysgaeth neu wrthderfysgaeth, gan gynnwys ymgeisiau i droseddu.

# Hawl 12: I gwyno nad yw eich Hawliau'n cael eu cwrdd

12.1 Os credwch nad ydych wedi cael unrhyw un o'ch **Hawliau** o dan y Cod, gallwch gwyno. Yn y lle cyntaf, os teimlwch yn gyffyrddus i wneud hynny, dylech drafod eich cwyn gyda'r unigolyn y buoch yn delio gyda nhw drwy'r darparwr gwasanaeth perthnasol.

12.2 Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon, neu os nad ydych yn teimlo'n gyffyrddus yn trafod y gŵyn gyda'r unigolyn y buoch yn delio gyda nhw, gallwch gwyno drwy weithdrefn gwyno fewnol y darparwr gwasanaeth[58]. Byddwch yna'n cael gwybodaeth am eu gweithdrefn gwyno ac yn cael ymateb o fewn yr amserlen a nodir yn y weithdrefn.

12.3 Os anfonwch eich cwyn i'r darparwr gwasanaeth anghywir, neu os oes angen i fwy nag un darparwr gwasanaeth ddelio â'r gŵyn, byddant yn rhoi gwybod i chi.

12.4 Os ydych dal yn anfodlon ar ôl bod drwy weithdrefn gwyno'r darparwr gwasanaeth, neu os ydynt yn cymryd rhy hir i ddod yn ôl atoch, gallwch gyfeirio eich cwyn yn uniongyrchol at yr Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd. Os nad yw eich cwyn yn ymwneud â'ch profiadau fel dioddefwr trosedd, dylech ofyn i'ch Aelod Seneddol gyfeirio eich cwyn i'r Ombwdsmon, yn lle ei anfon eich hun. Bydd yr Ombwdsmon yn ystyried unrhyw gwynion sy'n cael eu cyfeirio atynt a, lle bo'n briodol, yn gwneud ymchwiliad annibynnol.

12.5 Rhoddir mwy o fanylion am sut i gwyno i'r Ombwdsmon ar eu gwefan yn: www.ombudsman.org neu drwy ffonio eu Llinell Gymorth Cwsmeriaid ar **0345 015 4033**[59]

**Os ydych dan 18 oed: gwneud cwyn**

Bydd gan bob darparwr gwasanaeth ffordd y gallwch gwyno eich hun, neu fel bod eich rhiant neu warcheidwad yn gallu cwyno ar eich rhan.

[58] Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth fod â phroses gwynion glir yn ei lle fel bod dioddefwyr yn gallu cwyno os nad yw eu **Hawliau** o dan y Cod hwn wedi cael eu cwrdd.

[59] Dydd Llun tan Ddydd Iau, 8.30am - 5.00pm, a Dydd Gwener, 8.30am – 12:00pm.

# Preifatrwydd a datgelu data yn y system cyfiawnder troseddol

Pan fyddwch yn adrodd trosedd, gallai fod angen i asiantaethau cyfiawnder troseddol gasglu gwybodaeth bersonol amdanoch (a elwir yn ddata neu'n ddeunydd personol).

Fodd bynnag, dylai unrhyw wybodaeth sy'n cael ei chasglu fod yn gymesur ac angenrheidiol i'r ymchwiliad a'r erlyniad. Dylid ei thrin ofalus a'i chadw'n ddiogel yn unol â'r cyfreithiau diogelu data; ac egluro i chi sut y bwriedir defnyddio eich gwybodaeth.

Mae gennych **Hawl** i ddisgwyl i ddarparwyr gwasanaeth barchu eich preifatrwydd o dan y cyfreithiau diogelu data a chyfreithiau am wybodaeth y gall yr heddlu ei defnyddio wrth ymchwilio i drosedd, gan gynnwys beth all yr heddlu ei dynnu allan o'ch dyfeisiau personol (fel ffôn symudol).

## Ceisiadau gan yr heddlu am eich gwybodaeth bersonol gan eraill

Rhaid i'r heddlu eich hysbysu os ydynt yn gwneud cais i gael eich gwybodaeth bersonol gan drydydd parti, fel meddyg, therapydd, ysgol neu awdurdod lleol, oni bai y byddai'n amhriodol gwneud hynny.[60] Dylent ond gwneud hynny lle bo'n angenrheidiol a chymesur i wneud ymholiadau rhesymol. Rhaid i'r hysbysiad hwn gynnwys sut fath o wybodaeth y mae'r heddlu'n gofyn amdani, pam y gofynnir am yr wybodaeth a sut y defnyddir y deunydd ar ôl ei gasglu.

O ran nodiadau cwnsela, rhaid i'r heddlu ddechrau drwy ragdybio nad yw ceisiadau am y rhain yn angenrheidiol na'n gymesur. Gellir ond gofyn amdanynt os credir eu bod yn debygol o fod o werth tystiolaethol sylweddol i ymholiad rhesymol.

Gofynnir i chi roi eich barn am y cais am eich gwybodaeth cyn gofyn amdani a bydd yr heddlu'n cofnodi eich barn. Os oes gennych bryderon am beth, neu am yr holl ddeunydd y gofynnir amdano, bydd yr heddlu'n ystyried hynny wrth benderfynu symud ymlaen gyda'r cais am yr wybodaeth. Rhaid iddynt bob amser gydymffurfio â'r Cod Ymarfer Ceisiadau am Wybodaeth Dioddefwyr.

60 Er enghraifft os byddai hysbysiad o'r fath yn amharu ar yr ymchwiliad.

**Os ydych dan 18 oed: ceisiadau gan yr heddlu am eich gwybodaeth bersonol gan eraill**

Mae'n gyfreithiol ofynnol i'r heddlu hysbysu eich rhiant neu warcheidwad o bob cais am eich gwybodaeth bersonol, oni bai na fyddai'n briodol gwneud hynny. Os yw'r heddlu'n cyfathrebu'n uniongyrchol gyda chi'n ogystal â'ch rhiant neu warcheidwad (fel arfer, dim ond pan fyddwch yn 12+ oed), bydd yr heddlu'n egluro wrthych beth fydd yn digwydd i'ch gwybodaeth. Byddant hefyd yn holi eich barn ac yn ei hystyried cyn belled â phosib.

## Ceisiadau gan yr heddlu am eich gwybodaeth bersonol o'ch dyfeisiau digidol

Gall yr heddlu ofyn am dynnu gwybodaeth allan o'ch dyfais ddigidol (fel ffôn symudol) ond ni ddylid gwneud hyn fel mater o drefn a dim ond gyda'ch cytundeb (neu gyda chytundeb llefarydd teuluol enwebedig os ydych yn blentyn neu'n oedolyn heb alluedd i gytuno i hyn).[61]

Wrth wneud cais o'r fath, rhaid i'r heddlu barchu eich preifatrwydd, gofyn dim ond am wybodaeth sy'n angenrheidiol a chymesur i'r ymchwiliad, a dim ond ar ôl ystyried dulliau eraill llai ymwthiol o gael gafael ar wybodaeth berthnasol.

Rhaid i'r heddlu roi rhybudd ysgrifenedig i chi o ba wybodaeth sydd ei hangen o'r ddyfais, pam fod ei hangen a sut y bwriedir ei defnyddio. Mae angen iddynt gadarnhau nad oes raid i chi gytuno, ac os nad ydych yn cytuno, na fydd yn arwain yn awtomatig at gau eich achos. Rhaid iddynt gydymffurfio bob amser gyda'r Cod Ymarfer ar Dynnu Gwybodaeth Allan o Ddyfeisiau Electronig, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/consultations/extraction-of-information-from-electronic-devices-code-of-practice/extraction-of-information-from-electronic-devices-code-of-practice-accessible

[61] Adran 37 Deddf Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau trist pan fydd dioddefwr ar goll neu wedi marw, gall yr heddlu dynnu gwybodaeth allan o'u dyfais heb eu caniatâd.

**Os ydych dan 18 oed: ceisiadau am eich gwybodaeth bersonol o'ch dyfeisiau digidol**

Rhaid i'ch rhiant neu warcheidwad gytuno y gall yr heddlu gymryd eich dyfais ar eich rhan drwy gyfraith. Os yw'r heddlu'n cyfathrebu'n uniongyrchol gyda chi'n ogystal â'ch rhiant neu warcheidwad (fel arfer, dim ond pan fyddwch yn 12+ oed), bydd yr heddlu'n egluro wrthych beth fydd yn digwydd i'ch gwybodaeth a'ch dyfais a phryd y gallwch ddisgwyl ei chael yn ôl. Byddant hefyd yn holi eich barn ac yn ei hystyried cyn belled â phosib.

## Datgelu gwybodaeth ar ôl i chi lofnodi cytundebau dim datgelu

Os ydych wedi llofnodi neu gytuno i gytundeb dim datgelu (NDA) neu fath arall o gymal cyfrinachedd sy'n ceisio eich atal rhag datgelu amgylchiadau trosedd yn eich erbyn, gallwch dal adrodd y drosedd a gofyn am gyngor a chymorth cyfrinachol. Ni ellir gorfodi'r cymal cyfrinachedd yn eich erbyn lle bo'n fater o ddatgelu rhai mathau o wybodaeth. Gallwch:

- adrodd trosedd i'r heddlu a chyrff eraill sy'n erlyn troseddau;
- gofyn am gyngor cyfreithiol ar y drosedd gan gyfreithwyr cymwysedig;
- cydweithredu â rheoleiddwyr sy'n ymchwilio i gamymddygiad gan rai gweithwyr proffesiynol (fel cyfreithwyr a meddygon) drwy roi gwybodaeth iddynt am yr ymddygiad troseddol;
- datgelu gwybodaeth am yr ymddygiad troseddol i wasanaethau cymorth dioddefwyr ac aelodau teulu agos (rhiant, partner neu blentyn) er mwyn cael cymorth proffesiynol ac emosiynol.

Mae rhai pethau pwysig i'w nodi:

- Dylech ond trafod materion yn ymwneud â'r drosedd. Mae gwybodaeth arall, fel gwybodaeth fasnachol sensitif, yn debygol o ddod o dan yr NDA o hyd;
- Dylech ddefnyddio gwasanaethau cymorth gydag enw da fydd yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol;
- Er hynny, gellid dod ag achos cyfreithiol yn eich erbyn os datgelwch wybodaeth y tu allan i'r amgylchiadau hyn.

Am fwy o wybodaeth ewch i https://www.gov.uk/government/publications/victims-and-prisoners-act-2024-changes-to-non-disclosure-agreements/victims-and-prisoners-act-2024-changes-to-non-disclosure-agreements-for-victims-and-individuals-who-use-ndas

## Datgelu gwybodaeth i'r cyfryngau

Fel rheol gall newyddiadurwyr fynychu ac adrodd ar bethau sy'n digwydd yn y llys. Weithiau gall y cyfryngau gymryd diddordeb mewn achos a gofyn i chi a / neu eich teulu am sylw. Nid oes raid i chi siarad gyda nhw. Dylech fod yn ofalus i beidio â gwneud unrhyw beth a allai ddylanwadu'n annheg ar ganlyniad achos llys a bod yn euog o ddirmyg llys. Rhoddir mwy o fanylion yma: www.gov.uk/contempt-of-court

Os ydych yn poeni neu os hoffech gael cyngor, gallwch siarad gyda'r heddlu neu wasanaeth cymorth dioddefwyr. Neu gallwch gysylltu â Sefydliad Annibynnol Safonau'r Wasg drwy fynd i www.ipso.co.uk, fydd yn siarad gyda chi am eich pryderon ac yn rhoi cyngor ac arweiniad ymarferol.

## Yr heddlu'n rhannu manylion adnabod unigolyn dan amheuaeth

Weithiau ni fyddwch yn gwybod pwy yw'r unigolyn dan amheuaeth, mewn achosion niwed ar-lein er enghraifft. Yn yr achosion hyn mae gennych **Hawl** i ofyn i'r heddlu ryddhau manylion adnabod yr unigolyn. Bydd yr heddlu yna'n penderfynu a ellir rhyddhau'r wybodaeth neu beidio. Wrth ystyried eich cais, mae angen i'r heddlu gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Ar ôl i'r heddlu benderfynu rhyddhau'r wybodaeth neu beidio, rhaid iddynt roi gwybod i chi am y canlyniad, gan gynnwys os oedd y penderfyniad i beidio â rhannu'r wybodaeth.

Mae'r heddlu'n gwneud ei benderfyniad gan ddibynnu ar ba gam yn yr ymchwiliad y maen nhw arno. Er enghraifft, mae beth sy'n cael ei ystyried yn debygol o fod yn wahanol cyn o'i gymharu ag ar ôl gwneud penderfyniad i gyhuddo. Gallwch ofyn am yr wybodaeth yma eto ar wahanol gam yn y broses os penderfynodd yr heddlu na allent ryddhau'r wybodaeth i chi. I gael mwy o wybodaeth am y broses y mae'n rhaid i'r heddlu ei dilyn, gweler **[y canllawiau statudol sydd i ddod]**

# Gwybodaeth ddefnyddiol arall

## Sut gallaf fi sicrhau fy mod yn cael y gwasanaeth gorau?

Bydd darparwyr gwasanaeth yn ceisio lleihau faint o bobl wahanol fydd yn cysylltu gyda chi yn ystod eich achos, a lle bo'n bosib yn cynnig un pwynt cyswllt gwybodaeth i chi. I'w cynorthwyo i ddarparu eich **Hawliau** o dan y Cod hwn, dylech:

- roi gwybod iddynt os bydd eich manylion cyswllt neu ddewisiadau'n newid;
- gofyn os ydych yn ansicr am unrhyw beth yn ymwneud â'ch achos neu'r broses cyfiawnder troseddol; a
- rhoi eich barn am y gwasanaeth a gewch gan ddarparwyr gwasanaeth i'w helpu i ddarparu a theilwrio gwasanaeth da.

## Gwybodaeth am y Cod hwn

Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gynnwys gwybodaeth am y Cod hwn ar eu gwefannau. **[PLACEHOLDER:** ***Yn amodol ar weithrediad a.6 Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024:*** Mae gan ddarparwyr penodol[62] ddyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Cod. Rhoddir mwy o wybodaeth o dan **Hawl 3** ac yn: [canllawiau statudol i ddod].]

## Beth os nad ydw i eisiau derbyn yr Hawliau a gynigir o dan y Cod?

Gallwch benderfynu nad ydych eisiau rhai neu ddim o'r **Hawliau** o dan y Cod hwn. Dylech drafod hyn gyda'r darparwr gwasanaeth perthnasol.

Gallwch ddewis optio'n ôl i dderbyn **Hawliau** o dan y Cod hwn ar unrhyw adeg tra bod erlyniad neu ymchwiliadau i'r achos yn parhau neu os yw'r troseddwr yn treulio eu dedfryd. Nid yw hyn yn berthnasol i **Hawl 4** i hunan-gyfeirio a chysylltu'n uniongyrchol am gymorth i'ch helpu i ymdopi, a chyn belled â phosib, i adfer o drosedd. Mae'r **Hawl** yma ar gael p'un ai yw rhywun wedi cael eu cyhuddo, eu barnu'n euog o drosedd a ph'un ai y penderfynwch adrodd y drosedd i'r heddlu neu beidio neu ddewis peidio â chydweithredu gyda'r ymchwiliad.

[62] Yr holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (HMCTS), Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS), Timau Troseddwyr Ifanc (a elwir weithiau'n Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid) a heddluoedd anhiriogaethol (Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn).

## Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu[63] yn cael eu hethol yn lleol i sicrhau plismona effeithiol ac effeithlon. **[PLACEHOLDER: *Yn amodol ar weithrediad a.8 Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024*** Bydd gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ddyletswydd gyfreithiol i barhau i adolygu cydymffurfio â'r Cod yn eu hardal leol.[64]**]**. Mae ganddynt hefyd ddyletswydd gyfreithiol i holi barn y cyhoedd, gan gynnwys dioddefwyr, wrth benderfynu ar flaenoriaethau plismona yn eu hardal, ac i ddal Prif Gwnstabl yr heddlu yn eu hardal i gyfrif.[65] Maen nhw'n gyfrifol am gomisiynu llawer o'r gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i ddioddefwyr a ddisgrifir yn y Cod hwn.

## Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion (Comisiynydd Dioddefwyr)

Nid yw'r Comisiynydd Dioddefwyr wedi ei restru fel darparwr gwasanaeth o dan y Cod hwn. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod gan y Comisiynydd ddyletswydd statudol i adolygu'r Cod hwn yn rheolaidd. Mae hyn yn rhan o rôl y Comisiynydd o wrando ar farn dioddefwyr, deall y system cyfiawnder troseddol o safbwynt y dioddefwr, a cheisio helpu i wella'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael. Ni all y Comisiynydd Dioddefwyr helpu gydag achosion unigol na herio asiantaethau cyfiawnder troseddol i wneud penderfyniadau gwahanol.

## Crwneriaid

Nid yw crwneriaid a'u staff wedi eu cynnwys fel darparwyr gwasanaeth o dan y Cod hwn. Y rheswm yw oherwydd nad yw cwest, sy'n ymchwiliad cyfreithiol 'canfod ffeithiau' i achos ac amgylchiadau marwolaeth, yn achos troseddol. Mae gan aelodau teulu agos i rywun a fu farw statws 'unigolyn â budd' mewn cwest, sy'n rhoi hawliau statudol penodol iddynt. Mae hyn yn cynnwys **Hawl** i ofyn cwestiynau perthnasol i dystion a bod dogfennau a thystiolaeth arall yn cael eu datgelu iddynt. Yn hytrach, dylai aelodau teulu agos i rywun a

[63] Mewn rhai ardaloedd mae swyddogaethau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu harfer gan y Maer gyda chefnogaeth Dirprwy Faer ar gyfer Heddlua a Throseddu. Mae hyn yn wir yn ardaloedd heddluoedd Llundain, Manceinion Fwyaf, Gorllewin Swydd Efrog, De Swydd Efrog a Chaerefrog a Gogledd Swydd Efrog.

[64] O dan adran 7 Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, unwaith y mae'r Cod yn weithredol, rhaid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu adolygu bod cyrff cyfiawnder troseddol (yr heddlu, y CPS, GLITEF, HMPPS a'u hasiantaethau gweithredol a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid) yn cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr yn eu hardaloedd heddlu lleol. O ran heddluoedd anhiriogaethol (Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig), mae trefniadau gwahanol yn eu lle i fonitro eu bod yn cydymffurfio â'r Cod, drwy'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, oherwydd mae'r heddluoedd hyn yn gweithredu'n genedlaethol.

[65] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2011/13/part/1/chapter/3

fu farw drwy drosedd sy'n rhan o gwest i'r farwolaeth ddarllen y canllawiau ar ymchwiliadau'r crwner i bobl mewn profedigaeth, sydd ar gael yn: **www.gov.uk/government/publications/guide-to-coroner-services-and-coroner-investigations-a-short-guide**

## Prosesau eraill y tu allan i'r Cod

**[PLACEHOLDER: *Newid enw yn amodol i weithrediad a.19 Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024*: Adolygiadau Marwolaethau Cysylltiedig â Cham-drin Domestig]**

Os yw rhywun 16 oed neu'n hŷn wedi marw a bod cysylltiad â cham-drin domestig, dylid ystyried gwneud **[**Adolygiad Marwolaeth Cysylltiedig â Cham-drin Domestig**]** i sicrhau bod asiantaethau lleol, cymunedau lleol a chymdeithas yn gyffredinol yn dysgu gwersi o farwolaethau cam-drin domestig a thrin pob achos fel marwolaeth y gellid bod wedi ei hatal.

Mae rôl teuluoedd mewn profedigaeth, lle bo'n bosib, yn rhan allweddol o'r broses ac yn gallu gwella ansawdd a chywirdeb yr adolygiad yn sylweddol drwy daflu goleuni ar natur a faint o gam-drin a ddigwyddodd. Pan gynhelir adolygiad, gall cadeirydd yr Adolygiad a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol gyfeirio teuluoedd a ffrindiau mewn profedigaeth at wasanaethau cymorth. Os nad yw adolygiad yn cael ei wneud a chredwch y dylai un ddigwydd, gallwch eiriol dros hyn drwy gysylltu â'ch Partneriaeth Diogelwch Cymunedol leol. Gall eich awdurdod lleol egluro sut y gallwch wneud hyn.

Mae mwy o wybodaeth yma: https://www.gov.uk/government/publications/domestic-homicide-review-leaflet-for-family

## Achosion teulu a mesurau arbennig

Mae achosion teulu y tu allan i gwmpas y Cod hwn oherwydd mae'r system cyfiawnder teuluol ar wahân i'r system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, gallai fod yn ddefnyddiol gwybod os ydych yn ddioddefwr cam-drin domestig ac yn rhoi tystiolaeth mewn achos teulu, eich bod yn awtomatig gymwys i ofyn am fesurau arbennig i'ch helpu.

Bydd y llys yn penderfynu pa fesurau arbennig, os o gwbl, fydd yn eich cynorthwyo i roi eich tystiolaeth orau. Gallwch ofyn am gymorth yn eich cais i'r llys teulu neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r llys.

## Dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol

Gall dioddefwyr pob math o ymddygiad gwrthgymdeithasol ofyn am adolygiad o'u hachos drwy'r adolygiad o achos ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r adolygiad o achos ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broses wahanol sydd y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol. Nod y broses adolygu achosion yw dod ag asiantaethau at ei gilydd mewn ffordd gydlynol 'datrys y broblem' o ganfod ateb i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol troseddol a di-droseddol.

Mae gan rai asiantaethau, fel awdurdodau lleol, yr heddlu, timau iechyd lleol a darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, ddyletswydd statudol i gynnal adolygiad achos ymddygiad gwrthgymdeithasol pan fydd rhywun yn gofyn am un ac mae'r achos yn cwrdd â throthwy lleol.

Gall pob dioddefwr ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus ofyn am adolygiad achos ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd eich heddlu neu gyngor lleol yn gallu rhoi mwy o fanylion i chi am y broses adolygu achosion yn eich ardal. Am fwy o wybodaeth ewch i: https://victimandwitnessinformation.org.uk/crime-types/antisocial-behaviour

## Mecanwaith cyfeirio cenedlaethol ar gyfer dioddefwyr caethwasiaeth fodern

Mae'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (NRM) yn fframwaith ar gyfer nodi a chyfeirio dioddefwyr posib caethwasiaeth fodern yn y DU a sicrhau eu bod yn cael y cymorth priodol. Mae'r fframwaith hwn ar wahân i'r broses cyfiawnder troseddol ac y tu allan i gwmpas y Cod Dioddefwyr.

Dim ond rhai sefydliadau (a elwir yn Sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf) all gyfeirio dioddefwr posib caethwasiaeth fodern i'r NRM. Nid yw'n bosib hunan-gyfeirio i'r NRM, ond gall dioddefwyr gyfeirio eu hunain at wasanaethau cymorth eraill sydd ar gael iddynt o dan y Cod hwn. Mae rhestr o Sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf ar gael yn: https://www.modernslavery.gov.uk/designated-organisations

Er mwyn cael eich cyfeirio at yr NRM fel oedolyn, rhaid i Sefydliad Ymatebwyr Cyntaf gael eich caniatâd. Os penderfynir bod sail resymol dros gredu eich bod yn ddioddefwr posib caethwasiaeth fodern, gofynnir am eich caniatâd i roi'r cymorth arbenigol sydd ar gael gan y llywodraeth i chi.

Nid oes angen i blant roi caniatâd cyn dod yn rhan o'r NRM. Os yw Sefydliad Ymatebwyr Cyntaf yn dod ar draws plant y maent yn amau eu bod yn ddioddefwyr, rhaid iddynt eu cyfeirio at yr NRM yn unol â'u dyletswyddau statudol ac at yr awdurdod lleol perthnasol yn unol â gweithdrefnau amddiffyn plant.

I gael rhagor o wybodaeth am yr NRM, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/human-trafficking-victims-referral-and-assessment-forms/guidance-on-the-national-referral-mechanism-for-potential-adult-victims-of-modern-slavery-england-and-wales

E03303104

978-1-5286-5463-0